# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Llun, 27 Medi 2021

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Gwener, 1 Hydref 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Parthau Diogel (Tudalennau 3 - 80)**

**4. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 81 - 82)**

**5. Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu (Tudalennau 83 - 86)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Eitem Agenda 3

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Craffu - Cymunedau Ffyniannus** |
| **DYDDIAD:** | **1 Hydref 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Dros y we** |
| **TEITL:** | **Parthau Diogel** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi rhagor o wybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor am y Parthau Diogel.** |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | **Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar y 15fed o Orffennaf, gofynnodd yr Aelodau am adroddiad ar ddyfodol y Parthau Diogel.** |

**Y Cefndir:**

O gychwyn cyntaf pandemig Covid, blaenoriaeth Cyngor Sir Ceredigion oedd diogelu poblogaeth y sir a chadw'r nifer a fyddai'n dal y coronafeirws a nifer y marwolaethau mor isel â phosib.

Rhoddodd Cyngor Sir Ceredigion strategaeth ar waith a oedd yn galluogi'r gweithlu i weithio fel un i geisio atal y feirws. Yn sgil hyn, ac ynghyd ag amrywiaeth o gamau gweithredu a chydweithrediad trigolion Ceredigion, ni wireddwyd o gwbl y rhagolygon gwaethaf.

Mae'r Parthau Diogel ymhlith nifer o gamau a oedd yn cyflwyno mesurau i helpu cymunedau yn ystod y pandemig. Wrth i'r cyfnod clo lacio yn raddol yn y sir a thra oedd y gofynion cadw pellter yn hanfodol, roedd angen gwneud addasiadau er lles iechyd y cyhoedd. Cyflwynwyd Parthau Diogel yn Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Cheinewydd ym mis Gorffennaf 2020.

Mae'r Parthau Diogel wedi creu mannau mwy diogel drwy leihau traffig yn y canolfannau hyn a chreu rhagor o le i bobl gadw pellter yn ddiogel. Gwnaed hyn mewn llefydd sy'n cael eu nodweddu fel rheol gan balmentydd a strydoedd cul. Mae'r mesurau hyn wedi bod yn cyd-fynd â'r mesurau mewn siopau a oedd eisoes ar waith i helpu pobl i gadw pellter diogel tra eu bod yn siopa. Hefyd mae'r mesurau wedi helpu i gefnogi masnach yn yr awyr agored lle, fel arall, byddai cyfyngiadau wedi golygu na fyddai modd agor.

Mae'r cyfuniad o holl ymyriadau'r Cyngor, ynghyd â ffactorau eraill, wedi helpu i gefnogi ein trigolion yng Ngheredigion ac wedi cyfrannu at leihau'r risg o ddal yr haint yn y Sir.

**Parthau Diogel – Rhagor o wybodaeth**

Ers cyflwyno'r Parthau Diogel bu nifer o newidiadau gan adlewyrchu'r adborth a gafwyd drwy arolygon ymgysylltu, cyswllt â'r Cyngor (drwy e-bost, llythyr, ffôn), trafodaeth gyda Fforwm Anabledd Ceredigion a sefydliadau eraill a thrafodaethau gydag Aelodau.

Rhoddir cyflwyniad i'r Pwyllgor Craffu i esbonio sut y datblygodd y Parthau Diogel a sut y cawsant eu haddasu.

Bydd hwn yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- Y tudalennau ynglŷn â'r Parthau Diogel ar wefan y Cyngor: https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/coronafeirws-covid-19/parthau-diogel/
- Y ddau arolwg ymgysylltu sydd wedi'u cynnal. Y cyntaf rhwng 31 Gorffennaf a 10 Awst 2020, yr ail rhwng 26 Hydref a 21 Rhagfyr. Defnyddiwyd y ddau i ystyried a ddylid parhau â'r Parthau Diogel ac i ystyried addasiadau iddynt. Mae'r rhain ynghlwm wrth yr adroddiad, er hwylustod, ar ffurf Atodiadau 1 a 2.
- Addasiadau a wnaed i'r Parthau Diogel wrth i'r cyfraddau heintio a'r lefelau rhybudd newid.
- Yr Asesiadau Effaith Integredig. Cafwyd tri asesiad. Mae'r diweddaraf ynghlwm wrth yr adroddiad, er hwylustod, ar ffurf Atodiad 3.
- Y newidiadau diweddaraf a'r camau nesaf.

| | |
|---|---|
| | **A wnaed Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam** |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb: Do, mae fersiwn ddiweddaraf yr Asesiad Effaith (IIA) ynghlwm wrth yr adroddiad.*** |
| | **Hirdymor:** **Gweler yr IIA** |
| | **Integreiddio:** **Gweler yr IIA** |
| | **Cydweithio:** **Gweler yr IIA** |
| | **Cynnwys:** **Gweler yr IIA** |
| | **Atal:** **Gweler yr IIA** |

**ARGYMHELLIAD:**

**Bod yr Aelodau yn ystyried yr adroddiad a'r cyflwyniad.**

**Y RHESWM AM YR ARGYMHELLIAD:**

**I ymateb i'r cais am ragor o wybodaeth am y Parthau Diogel a'u dyfodol.**

**Enw Cyswllt:** Russell Hughes-Pickering

**Swydd:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio

**Dyddiad yr adroddiad:** 13 Medi 2021

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Ymgynghoriad am Barthau Diogel Ceredigion

## Adroddiad Adborth




**Awst 2020**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# PRIF GANLYNIADAU

Cafwyd **2,065** o ymatebion

(Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Awst)

Roedd **64%** yn **Cytuno** neu'n **cytuno'n gryf** gyda'r Parthau diogel mewn egwyddor

(Roedd 27% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf)

Roedd **51%** yn **Cytuno** neu'n **cytuno'n gryf** bod y parthau diogel yn galluogi pobl i ymweld â threfi mewn ffordd ddiogel

(Roedd 38% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf)

Roedd **37%** yn credu bod y parthau diogel yn cael effaith **dda** neu **dda iawn** ar fusnesau yng nghanol y dref

(Dywedodd 26% eu bod yn cael effaith wael neu wael iawn)

Mae **52%** o'r farn bod yr effaith ar Ddeiliaid Bathodyn Glas a'r henoed yn **wael** neu'n **wael iawn**

(Dywedodd 9% bod yr effaith yn dda neu'n dda iawn)

Mae **52%** o'r farn eu bod yn cael effaith **dda** neu **dda iawn** ar yr awyrgylch mewn trefi

(Dywedodd 27% eu bod yn cael effaith wael neu wael iawn)

Mae **46%** o'r farn eu bod yn cael effaith **dda** neu **dda iawn** ar yr amgylchedd

(Dywedodd 15% eu bod yn cael effaith wael neu wael iawn)

Mae **14%** yn **cytuno** neu'n **cytuno'n gryf** eu bod yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg

(Roedd 33% yn anghytuno ac nid oedd 29% yn gwybod)

## Prif themâu o'r sylwadau ysgrifenedig

- AWYRGYLCH CYFEILLGAR A PHLESERUS MEWN TREFI
- MAE'N CYNNIG CYFLE I DDATBLYGU TREFI
- MYNEDIAD I'R ANABL / DEILIAID BATHODYN GLAS
- MYNEDIAD A PHARCIO I BRESWYLWYR YN Y PARTHAU DIOGEL
- TWRISTIAID/ YMWELWYR DDIM YN CADW PELLTER CYMDEITHASOL
- RHAI BUSNESAU YN CAEL EU HEFFEITHIO MEWN FFORDD NEGYDDOL

**Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 31 Gorffennaf a 10 Awst 2020**

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein trwy wefan y Cyngor ac fe'i hysbysebwyd ar gyfryngau cymdeithasol

Cafwyd cyfanswm o 2,065 o ymatebion

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys y canlyniadau llawn a gwybodaeth monitro cydraddoldeb

## Cefndir

Rhwng 31ain o Orffennaf a'r 10fed o Awst 2020, cynhaliwyd Cyngor Sir Ceredigion ymgynghoriad gyda thrigolion ynglŷn â'r parthau diogel a sefydlwyd yn eu trefi.

Sefydlwyd y parthau diogel yn Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Cheinewydd ym mis Gorffennaf er mwyn helpu i atal Covid-19 rhag lledaenu ar ôl i'r cyfnod clo ddod i ben. Mae rhai ffyrdd wedi cael eu cau i draffig, gwaredwyd annibendod ar balmentydd a gofynnwyd i ymwelwyr barcio i ffwrdd o ganol trefi, a diben hyn oll oedd caniatáu i'r cyhoedd symud o gwmpas y parth yn ddiogel, a hefyd, hwyluso'r cyfle i fasnachwyr a busnesau wneud mwy o ddefnydd o'r lle y tu allan i'w safleoedd, dan gytundeb gyda'r Cyngor.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein ar wefan y Cyngor ac fe'i hysbysebwyd ar gyfryngau cymdeithasol.


## Cyfradd Ymateb

Cafwyd 2,065 o ymatebion i'r arolwg. Mae nifer uchel yr ymatebion, ac yn arbennig, cyfanswm y sylwadau ysgrifenedig a roddwyd i gefnogi pob ateb, yn adlewyrchu'r effaith y mae'r parthau diogel wedi'i chael ar y bedair dref. Mae'r paragraffau sy'n dilyn yn cynnig crynodeb o'r canfyddiadau.

## Prif Ganfyddiadau


### C1: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o greu "parthau diogel" yng nghanol trefi er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol?

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (64%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r egwyddor o greu parthau diogel er mwyn caniatáu i bobl gadw pellter cymdeithasol. Roedd y gyfran fwyaf, 40%, yn cytuno'n gryf gyda'r penderfyniad a chefnogwyd hyn gan nifer o sylwadau ysgrifenedig a oedd yn amlygu manteision llai o draffig, gan bod hyn yn ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr ac yn creu awyrgylch mwy 'croesawgar'. Fodd bynnag, roedd dros chwarter (27%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gyda'r penderfyniad i'w cyflwyno. Y ddau brif reswm a nodwyd yn y sylwadau ysgrifenedig oedd mynediad i bobl anabl a phryder nad oedd pobl yn cydymffurfio â'r rheolau ynghylch cadw pellter cymdeithasol unwaith yr oeddent yn y parthau diogel, ac roedd hyn yn peri i bobl leol deimlo'n anniogel.




## C2: I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y "parthau diogel" yng nghanol trefi wedi caniatáu i bobl ymweld â'r dref yn ddiogel?


Roedd mwyafrif llai o 51% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y parthau diogel wedi galluogi pobl i ymweld â'r trefi mewn ffordd ddiogel. Roedd 38% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gyda'r farn hon, ac yr oeddent yn fwy llafar yn y sylwadau ysgrifenedig na'r rhai a oedd yn cytuno. Roedd eu pryderon yn debyg i'r pryderon a fynegwyd yn yr atebion i'r cwestiwn cyntaf – cyfeiriwyd yn aml at fynediad i bobl anabl, yn ogystal â sicrhau bod lle parcio digonol ar gael os na allant gael mynediad i ganol y trefi. Unwaith eto, y pryder mwyaf oedd y ffaith nad yw pobl, a thwristiaid ac ymwelwyr yn arbennig, yn cydymffurfio â'r rheolau ynghylch cadw pellter cymdeithasol yn y parthau diogel. Roedd 10% pellach o'r ymatebion yn rhai 'niwtral' neu'n nodi nad oeddent yn gwybod.




## C3: Pa effaith y mae'r "parthau diogel" wedi'i chael ar fusnesau yng nghanol trefi?


Yn gyffredinol, dywedodd 37% bod effaith y parthau diogel ar fusnesau yng nghanol y trefi yn dda neu'n dda iawn. Cyfeiriodd ymatebwyr at yr effeithiau buddiol ar gaffis, sefydliadau bwyd a thwristiaeth, y maent yn gallu manteisio ar seddau y tu allan yn y cyfnod pan geir mwy o ymwelwyr yn ystod y tymor gwyliau. Ar y llaw arall, dywedodd ychydig dros chwarter (26%) bod yr effaith yn wael neu'n wael iawn. Dywedodd 37% pellach nad oeddent yn gwybod neu roeddent wedi rhoi ymateb 'niwtral'. Adlewyrchir

hyn yn y sylwadau ysgrifenedig, lle'r oedd nifer o ymatebwyr o'r farn ei fod yn fuddiol i rai busnesau ond nid i rai eraill, a bod hyn yn dibynnu'n fawr ar y math o fusnes dan sylw, a'i leoliad.




## C4: Pa effaith y mae'r "parthau diogel" wedi'i chael ar bobl anabl, deiliaid Bathodyn Glas a'r henoed?

Dywedodd mwyafrif o 52% bod yr effaith ar bobl anabl, deiliaid Bathodyn Glas a'r henoed wedi bod yn wael neu'n wael iawn, a chefnogwyd hyn gan nifer fawr o sylwadau. Roedd mwyafrif y pryderon yn ymwneud â mynediad cyffredinol i'r anabl, argaeledd lleoedd parcio i ddeiliaid Bathodyn Glas a dryswch am y parthau diogel ymhlith yr henoed. Gwnaethpwyd nifer fawr o sylwadau nad oeddent yn rhoi rheswm penodol, ond roeddent yn gwneud sylw cyffredinol bod yr effaith wedi bod yn negyddol ar y grwpiau hyn. Dim ond 9% ddywedodd bod yr effaith wedi bod yn dda neu'n dda iawn, ac nid oedd gan dros chwarter (26%) unrhyw farn am y mater neu nid oeddent yn gwybod.




## C5: Ar y cyfan, pa effaith mae'r "parthau diogel" wedi'i chael ar awyrgylch y dref?


O ran yr awyrgylch cyffredinol a'r 'teimlad' yn y trefi, dywedodd mwyafrif o 52% bod yr effaith wedi bod yn dda neu'n dda iawn, a nododd cyfran fwyaf yr ymatebwyr (32%) ei bod wedi bod yn dda iawn. Roedd y sylwadau ysgrifenedig a wnaethpwyd i gefnogi'r farn hon yn nodi ei fod wedi creu awyrgylch mwy pleserus, croesawgar a 'chyfandirol' yn y trefi, a bod pobl wedi mwynhau hyn. Maent hefyd yn amlygu'r ffaith bod dim ceir yn golygu na chaiff yr aer ei lygru a'u bod yn teimlo'n ddiogel wrth grwydro o gwmpas y siopau. Fodd bynnag, roedd 27% hefyd a oedd o'r farn y bu'r effaith yn wael, ac roedd y rhain yn gyfrifol am fwyafrif y sylwadau ysgrifenedig. Y prif faterion a godwyd oedd y ffaith bod pobl

leol yn teimlo'n llai diogel o ganlyniad i niferoedd uchel y twristiaid a'r ymwelwyr â'r ardal, nad ydynt yn cydymffurfio â'r mesurau cadw pellter cymdeithasol, a bod teimlad bod y parthau diogel wedi cael eu creu er budd twristiaeth yn hytrach nag er budd pobl leol.

**C5. Effaith ar yr Awyrgylch**

**Ar y cyfan, pa effaith mae'r "parthau diogel" wedi'i chael ar awyrgylch y dref?**

▼ Canran





### C6: Ar y cyfan, pa effaith mae'r "parthau diogel" wedi'i chael ar yr amgylchedd?

Roedd 46% o ymatebwyr yn teimlo bod y parthau diogel wedi cael effaith dda neu dda iawn ar yr amgylchedd, o'i chymharu â 15% yn unig a ddywedodd eu bod wedi cael effaith wael neu wael iawn ar yr amgylchedd.  Roedd chwarter (25%) yr ymatebwyr wedi rhoi ymateb 'niwtral' ac nid oedd 14% pellach yn gwybod neu nid oedd ganddynt farn am y mater.  O blith y sylwadau ysgrifenedig a gafwyd i'r cwestiwn hwn, amlygodd nifer yr effeithiau cadarnhaol o gael llai o geir yn y trefi, a'r ffaith bod llai o lygredd sŵn a llygredd yn yr aer yn arbennig.  Fodd bynnag, mynegwyd yr un faint o bryderon am y ffaith bod cynnydd mewn ysbwriel a biniau gorlawn yn un o sgil-effeithiau'r parthau diogel, wedi'i gyfuno gyda chynnydd yn nifer yr ymwelwyr a'r ffaith bod y diwydiant twristiaeth wedi ailagor.

**C6. Effaith ar yr Amgylchedd**

**Ar y cyfan, pa effaith mae'r "parthau diogel" wedi'i chael ar yr amgylchedd?**

▼ Canran





### C7. Ydy parthau diogel canol y dref yn darparu cyfleoedd i allu hyrwyddo a hwyluso yr iaith Gymraeg?

Dywedodd cyfran fwyaf yr ymatebwyr (29%) nad oeddent yn gwybod neu nad oedd ganddynt farn am y mater, a ddilynwyd gan 23% pellach a roddodd ymateb 'niwtral'.  O blith y rhai yr oedd ganddynt farn, dywedodd 14% eu bod yn cytuno bod y parthau diogel yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r iaith

Gymraeg, ac roedd 33% yn anghytuno. Ni chafwyd unrhyw ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn, yn hytrach, cynhwyswyd cwestiwn ar wahân ynghylch y cyfleoedd i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg fel cwestiwn 8.

**C7. Yr Iaith Gymraeg**

**Ydy parthau diogel canol y dref yn darparu cyfleoedd i allu hyrwyddo a hwyluso yr Iaith Gymraeg?**




## C8. Oes gennych chi sylwadau am sut bydd y parthau diogel yn gallu effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg? Nodwch unrhyw effeithiau cadarnahol neu wrthwynebus er mwyn i ni gyfeirio atynt.

Yn dilyn cwestiwn 7, gofynnwyd i ymatebwyr roi awgrymiadau ysgrifenedig ynghylch sut y gallai'r parthau diogel effeithio ar gyfle pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Rhoddwyd 697 o sylwadau. Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn cwestiynu gwerth cynnwys y cwestiwn hwn yn yr arolwg, gan awgrymu nad yw cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn ymwneud â'r parthau diogel a chadw pellter cymdeithasol. Ymhlith y rhai a fynegodd sylwadau am yr effeithiau cadarnhaol a negyddol, roedd y prif themâu fel a ganlyn:

- Mae llai o draffig yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl stopio a siarad yn y dref, gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac mae'n creu cyfleoedd i'r rhai di-Gymraeg ei chlywed yn cael ei defnyddio'n ddyddiol hefyd.
- Mae'r tymor gwyliau brig yn golygu y ceir cynnydd mawr yn nifer y twristiaid nad ydynt yn siarad Cymraeg, felly mae hyn yn lleihau'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Gallai'r anhawster i'r henoed fanteisio ar y dref olygu bod llai o gyfleoedd i'r Gymraeg gael ei defnyddio yn y dref.

Mae'r tabl isod yn cynnwys detholiad o'r sylwadau a gafwyd.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| Effeithiau cadarnhaol | Effeithiau niweidiol |
| "Rhan o'r profiad o ymweld â Chymru yw gweld diwylliant amgen. Dylid annog yn gryf y cam o ddefnyddio arwyddion yn y ddwy iaith swyddogol." | "Gall gormod o arwyddion dwyieithog fod yn rhywbeth gwrthanogol. Mae gwaith graffig cynnil a gweledol yn fwy llwyddiannus. Mae'n wych clywed pobl leol yn siarad Cymraeg ar y stryd, mewn bwytai a bariau, a hwn yw ein cyfle cryfaf i ddylanwadu ar ymwelwyr gydag iaith lafar." |

| | |
|---|---|
| "Mae'n haws cael sgwrs heb sŵn y traffig. Mae cael mwy o le y tu allan yn caniatáu i grwpiau gyfarfod, a allai gynnwys grwpiau ymarfer yr iaith Gymraeg, y maent wedi bod yn ei chael hi'n anodd cyfarfod cyn hyn." | "Trwy ddenu ymwelwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg ac nad oes ganddynt unrhyw ddymuniad i gyfathrebu yn Gymraeg, mae hyn yn lleihau unrhyw gyfathrebu yn Gymraeg." |
| "Rydw i'n dysgu Cymraeg (dechreuwr) a heb os, byddwn yn hoffi cael mwy o gyfleoedd Anffurfiol i glywed y Gymraeg yn cael ei siarad gan bobl y mae'r iaith yn famiaith iddynt, ac i deimlo bod amser i roi cynnig ar chwilio am y geiriau hefyd. Bydd y teimlad diogel ac nad oes angen rhuthro a gaiff ei greu gan y parth diogel yn cynorthwyo hyn!" | "Nifer fawr o'r genhedlaeth hŷn yw prif ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg, ond maent yn ei chael hi'n rhy anodd dod i'r dref i gyfarfod pobl, felly ni chaiff yr iaith ei defnyddio. Mae'n torri'r genhedlaeth hŷn i ffwrdd o gymdeithas." |
| "Efallai y byddant yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl gyfarch ei gilydd yn Gymraeg, i stopio a chael sgwrs mewn ffordd fwy diogel, ac i bobl hŷn sy'n siarad Cymraeg i glywed ei gilydd yn haws mewn amgylchedd tawelach." | "Mae'n ymddangos bod y parthau hyn ar gyfer ymwelwyr yn fwy nag y maent ar gyfer y bobl leol. Nid yw'r bobl hyn yn defnyddio'r iaith Gymraeg o reidrwydd." |
| "Bydd y cyfle ychwanegol i eistedd a siarad mewn man cyhoeddus yn hwyluso'r cyfle i ymarfer yr iaith a'i hyrwyddo wrth i eraill wrando arni yn cael ei siarad." | "Heb os, nid yw mwyafrif yr ymwelwyr yn y parthau diogel yn siarad Cymraeg, ac ni fyddai angen iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu trafodion." |

## C9: A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ynghylch sut y gellid gwella'r "parthau diogel"?

Roedd y cwestiwn olaf yn un penagored, gan gynnig y cyfle i ymatebwyr roi unrhyw adborth ychwanegol nad oedd wedi cael ei roi yn yr wyth cwestiwn blaenorol. Rhoddwyd cyfanswm o 1,191 o sylwadau at ei gilydd, am ystod eang o faterion yn ymwneud â'r parthau diogel ac ynghylch cynnal diogelwch yn ystod pandemig Covid-19. Y rhai yr oedd ganddynt bryder neu gŵyn oedd y rhai mwyaf llafar wrth ateb y cwestiwn hwn. Y prif themâu a godwyd oedd:

- Mynediad a lleoedd parcio sydd ar gael i breswylwyr lleol.
- Mynediad pobl anabl a deiliaid Bathodyn Glas i'r parthau diogel.
- Mae'n creu cyfleoedd i ddatblygu'r trefi yn y dyfodol, megis ystyried camau i bedestreiddio rhai trefi dros y tymor hwy.
- Pryder nad oes nifer o dwristiaid ac ymwelwyr yn cadw pellter cymdeithasol.
- Mae rhai busnesau yn adrodd eu bod wedi cael eu heffeithio mewn ffordd negyddol gan nad yw cwsmeriaid yn gallu dod i'w siop, ac maent yn dewis siopa mewn man arall yn lle hynny.
- Lleihau maint y parthau diogel er mwyn cynnig mynediad gwell i'r henoed ac i breswylwyr lleol.
- Ystyrir bod atalfeydd y parthau diogel yn hyll ac y byddai modd eu disodli gyda dodrefn stryd arall sy'n fwy dymunol ei olwg.
- Pryder nas gwrandawyd ar safbwyntiau lleol ac y rhoddwyd blaenoriaeth i anghenion twristiaid.
- Cynnydd yng nghyfanswm yr ysbwriel a biniau sy'n gorlifo, ynghyd â'r angen i wneud mwy o waith i lanhau'r strydoedd.

Mae'r tabl isod yn cynnwys detholiad o'r sylwadau a gafwyd.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Byddai'n braf defnyddio dodrefn stryd mwy deniadol i gau'r ffyrdd ac ati. A oes modd gosod cyfleusterau storio beiciau er mwyn annog pobl i feicio i'r dref? Dylai parthau diogel fod yn elfen barhaol yn ystod misoedd yr haf, mae trefi sy'n rhydd rhag ceir yn welliant gwych wrth fwynhau ein trefi." | "Fel y nodwyd yn fy sylw cyntaf, teimlaf bod pobl yn tueddu i fod yn fwy didaro yn y parthau diogel ynghylch cadw eu pellter. Mae hyn felly yn mynd yn groes i ddiben y parthau diogel, a byddai'n well gen i beidio eu cael o gwbl." |


| | |
|---|---|
| "Mwynhaom ein hymweliad ag Aberteifi yn fawr yr wythnos hon. Aethom i'r dref dair gwaith. Awyrgylch hyfryd, bron fel carnifal, gyda cherddoriaeth a lleoedd i fwyta y tu allan. Roedd hi'n haws cadw pellter cymdeithasol (er nad oedd hyn wastad yn bosibl gan bod cymaint ar y stryd/ffordd). Heb y parthau diogel, byddai wedi bod yn amhosibl cadw pellter cymdeithasol. Gallai fod yn gyfle gwych i dalent ifanc lleol i arddangos eu doniau y tu allan i neuadd y dref, neu i gynnal darlleniadau llyfr y tu allan, sgiliau syrcas, arlunwyr lleol, clowniau ac ati – gallai'r rhain oll hyrwyddo'r iaith Gymraeg a thalent lleol, ac fe allent ddenu mwy o deuluoedd i'r dref. Mwynhaom ein hymweliad yn fawr iawn ac roeddem yn teimlo'n ddiogel iawn. Diolch yn fawr." | "A fyddai modd i chi ystyried sefyllfa yr anabl, yr henoed a'r rhai y mae ganddynt Nam ar eu golwg, gan ganiatáu iddynt fyw bywyd annibynnol, diogel a chan ystyried eu lles. Er mwyn eu hatal rhag bod yn gaeth i'w cartref. A thrwy………. Roi sylw penodol i ganllawiau'r llywodraeth ynghylch dodrefn stryd, arwyddion, bolardiau ac ati." |
| "Dylid ei wneud yn drefniant parhaol – o'r hyn a welais i heddiw. Nid oeddwn yn hoff o'r syniad ar y dechrau, gan ei fod yn golygu gorfod parcio y tu allan i'r dref er mwyn picio i mewn am ychydig eitemau, ond ar ôl bod i'r dref heddiw, credaf ei fod yn beth gwych, a mwynheais gerdded trwy'r dref yn hytrach na rhuthro yn ôl i'm car, fel y byddaf yn ei wneud fel arfer. Os bydd yn drefniant parhaol, byddai'n hyfryd cael pafinau bloc ar hyd y prif strydoedd, gan bod awyrgylch cyfandirol iawn yn y dref heddiw. Roedd nifer o bobl y siaradom â nhw yn nodi eu bod yn teimlo fel pe baent mewn gwlad dramor! Roedd cymaint o bobl yn eistedd y tu allan i'r caffis yn bwyta cinio ac yn yfed coffi – roedd hi'n hyfryd ei weld." | "Dylid fod wedi trafod hyn gyda phreswylwyr lleol cyn gwneud unrhyw beth. Mae tyrfeydd y twristiaid o gwmpas y dref yn ei gwneud hi'n anodd iawn cadw pellter cymeithasol gan eu bod nhw ym mhob man!" |
| "Hwn yw'r cyfle i gymryd camau trawsnewidiol i ddadwneud dirywiad yr ardal hyfryd ar hyd arfordir Cymru. Gadewch i ni fanteisio ar y cyfle i wneud newidiadau go iawn er mwyn symud ymlaen a chychwyn ar daith newydd a mentrus er mwyn sicrhau bod ein harfordir ni ar y blaen. Tacluso'r cyfan." | "Teimlaf bod awyrgylch gwych ar y stryd fawr, heol y wig a thu allan medina. Gwelaf fanteision cau'r strydoedd er mwyn helpu pobl i gadw pellter cymdeithasol. Credaf ei fod yn gyfle gwych i ddyfodol Aberystwyth, fodd bynnag, credaf y byddai'n anoddach yn y gaeaf. Er, rhaid i mi gyfaddef ei fod yn niwsans ar gyfer gwaith." |
| "Dylid ystyried mynediad dewisol i'r rhai sydd ag anabledd corfforol. Dylid ystyried mynediad dewisol i'w rhai sy'n byw yn y dref ac sy'n parcio ar y stryd y tu allan i'w cartrefi." | "Mae'r arolwg hwn yn hwyr iawn, dylid fod wedi ei gynnal cyn gweithredu'r newidiadau. Mae'r mynediad i'r anabl neu symudedd yn gyfyngedig. Mae sicrhau mynediad er mwyn cynorthwyo preswylydd hŷn sy'n byw yn y parth, er mwyn cludo siopa, meddyginiaeth ac ati iddynt, wrth gyflawni'r tasgau hyn a chyflawni swydd amser llawn wedi peri i'r tasgau fod yn llawer anoddach. |
| "Mwy o ddangosyddion gweledol i bobl adnabod 2 fetr ac arwyddion Symlach a mwy cyfeillgar er mwyn addysgu pobl am y rheolau yng Nghymru ynghylch cadw pellter o 2m. Rydw i'n dwli ar y syniad o gael smotiau neu galonnau lliwgar ar y ffyrdd a'r palmentydd, 2 m i ffwrdd o'i gilydd, fel bod pobl yn cael eu hatgoffa mewn ffordd weledol. Mae angen meithrin amgylchedd gofalgar er mwyn annog ymwelwyr a phobl leol i fod yn ddiogel ac i ofalu am ei gilydd oherwydd y gwelir teimlad 'ni a nhw' cynyddol, nad yw'n beth da i unrhyw un." | "Plismona/atgoffa pobl ar lafar i gadw pellter cymdeithasol mewn lleoliadau cyfyng – nid yw'r arwyddion newydd yn helpu. Mae pobl yn ymateb i ni mewn ffordd haerllug wrth i ni wisgo mygydau a cheisio cadw pellter cymdeithasol – un sylw a gawsom oedd 'nid oes Covid yma, felly pam ydym yn trafferthu???' Maent ar eu gwyliau ac mae'n ymddangos eu bod wedi anghofio'r misoedd diwethaf." |
| "Peidio cau gormod o'r strydoedd efallai, fel bod pobl yn gallu parcio yn agosach i'r dref, ac ymestyn hyd rhywfaint o'r cyfnod parcio o 30 munud i o leiaf awr mewn rhai mannau, fel y gall pobl gael amser i ymweld â'r siopau y mae angen iddynt ymweld â nhw." | "Rydw i'n llwyr gytuno gyda'r syniad, ond trwy gymryd y mannau parcio i ffwrdd, bydd pobl yn parcio mewn ffordd anghyfrifol, gan atal mynediad i'r gwasanaethau brys efallai, neu'n waeth fyth, peidio stopio yno i ymweld. Syniad gwych, ond nid yw wedi cael ei ystyried yn ddigon da." |

| | |
|---|---|
| “Mwy o leoedd parcio i breswylwyr heb fod yn bell o ganol y dref, a mwy o gymorth i’r henoed ac i’r anabl trwy gyfrwng mannau parcio ychwanegol a sgwteri symudedd.” | “Mae’r arwyddion dros dro yn wael ac yn oramlwg.  Mae gormod o atalfeydd hyll yno o hyd e.e.  ar y brif ffordd gyferbyn â’r safleoedd bws.” |


# Cwestiynau Monitro Cydraddoldeb

Gofynnwyd cwestiynau monitro cydraddoldeb a manylion demograffeg safonol y Cyngor fel rhan o'r arolwg.


**1. Oedran - Ym mha grŵp oedran ydych chi?**





**2. Rhyw - Beth yw eich rhyw chi?**





**3. Trawsryweddol - a yw'ch rhyw yr un fath â'r un a neilltuwyd i chi ar eich genedigaeth?**





**4. Cyfeiriadedd Rhywiol - Pa un o'r dewisiadau canlynol sy'n disgrifio'r ffordd yr ydych chi'n meddwl am eich hun orau?**





**5. Partneriaeth - Pa un o'r dewisiadau canlynol sy'n disgrifio eich statws partneriaeth?**




**6. Hunaniaeth genedlaethol - Sut fyddech yn disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?**





**7. Hil - Beth yw'ch grŵp ethnig? Dewiswch un dewis sy'n disgrifio eich cefndir neu'ch grŵp ethnig orau.**





**8a. Iaith - Beth yw'r iaith yr ydych yn ei ffafrio?**




**8b Iaith - A ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**





**9a. Anabledd - A oes gennych chi salwch neu gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?**





**9b. Anabledd - Os ateboch 'Oes' i gwestiwn 22, nodwch pa un sy'n bertnasol i chi?**



**10 Cyfrifoldebau gofalu - A ydych chi'n gofalu am neu'n rhoi help neu gymorth i aelodau teuluol, ffrindiau, cymdogion, neu eraill oherwydd naill ai: salwch corfforol neu feddyliol hirdymor; neu broblemau sy'n gysylltiedig gyda bod yn oedrannus?**




**11 Crefydd neu Gredo - Beth yw'ch crefydd chi?**



# Arolwg Parthau Diogel Canol Trefi Aberystwyth, Aberaeron, Cei Newydd ac Aberteifi

## Adroddiad Adborth




**Ionawr 2021**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# PRIF GANLYNIADAU

## 1,120

Ymateb wedi'u derbyn

(ymgysylltu wedi dod i ben 21 Rhagfyr)




## 54%

**Cytuno** neu'n **cytuno'n gryf** â chreu Parthau Diogel

(40% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf)

## 47%

**Cytuno** neu'n **cytuno'n gryf** y dylai canol trefi ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn Covid-19

(45% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf)




## 56%

**Cytuno** neu'n **cytuno'n gryf** y dylai parthau diogel fod ar waith pan fydd risg o Covid-19

(35% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf)

## 70%

**Cytuno** neu'n **cytuno'n gryf** bod angen cynlluniau hirdymor newydd i adfywio canol trefi

(20% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf)

### Mae lefelau cefnogaeth ar gyfer Parthau Diogel yn amrywio yn ôl trefi:

Aberystwyth – 59.6%
Aberaeron – 51.6%
Cei Newydd – 46.9%
Aberteifi – 41.3%

(Mae'r ffigurau'n dangos y % sy'n cytuno / cytuno'n gryf â chreu'r parthau diogel)

### Mae lefelau cefnogaeth ar gyfer Parthau Diogel yn amrywio yn ôl y math o ymatebydd:

Unigolion – 55.0%
Busnesau – 38.7%

(Mae'r ffigurau'n dangos y % sy'n cytuno / cytuno'n gryf â chreu'r parthau diogel)

### Mae'r gefnogaeth ar gyfer trefi yn dychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd yn amrywio:

Aberteifi – 62.0%
Cei Newydd – 54.3%
Aberaeron – 48.4%
Aberystwyth – 37.9%

(Mae'r ffigurau'n dangos y % sy'n cytuno / cytuno'n gryf â threfi'n dychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig)

**Ymgynghori wedi cael ei gynnal rhwng 26 Hydref a 21 Rhagfyr 2020**

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein trwy wefan y Cyngor a chafodd ei hysbysebu trwy'r cyfryngau cymdeithasol

Derbyniwyd cyfanswm o 1,200 o ymatebion

Mae'r canlyniadau llawn a'r wybodaeth monitro cydraddoldeb wedi'u cynnwys ar y tudalennau canlynol

# Cefndir

Rhwng 26 Hydref a 21 Rhagfyr 2020, cysylltodd Cyngor Sir Ceredigion â thrigolion ar y parthau diogel a sefydlwyd ym mhedair o'i drefi.

Cafodd y parthau diogel eu sefydlu yn Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Chei Newydd i helpu i gadw trigolion Ceredigion yn ddiogel rhag haint y coronafeirws. Cyflwynwyd amryw o fesurau i helpu pobl i gadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys llai o fynediad i gerbydau rhwng 11:00am a 6:00pm i gynyddu'r lle i gerddwyr ymweld yn ddiogel â chanol trefi.

# Cyfradd Ymateb

Cafwyd cyfanswm o 1,120 o ymatebion i'r arolwg, 39 yn Gymraeg, 1,079 yn Saesneg ynghyd â 2 ymateb hawdd ei ddeall. Cafwyd 7,097 o sylwadau ac awgrymiadau ysgrifenedig, ac er nad oed modd cynnwys pob un ohonynt air am air yn yr adroddiad hwn, mae'n rhoi detholiad ohonynt i ddangos y safbwyntiau gwahanol. Mae'r nifer fawr o ymatebion yn adlewyrchu'r effaith barhaus y mae parthau diogel yn ei chael ar y pedair tref.

# Methodoleg

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein trwy wefan y Cyngor a chafodd ei hysbysebu trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd fersiwn hawdd ei ddeall ar gael a lluniwyd rhestr o randdeiliaid i sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael cyfle i gymryd rhan.

Bydd y Cyngor yn defnyddio adborth gan fusnesau, trigolion ac ymwelwyr i helpu i lywio a llunio dyfodol ein canol trefi.


Mae'n bwysig nodi y derbyniwyd llawer mwy o ymatebion ar gyfer Aberystwyth na'r tair tref arall ac mae hyn yn effeithio ar y canlyniadau cyfanredol ar gyfer y sir gyfan. O ganlyniad, mae pob cwestiwn yn rhoi dadansoddiad yn ôl tref unigol i ddangos y gwahaniaeth barn yn ôl lleoliad, a hefyd yn ôl y math o ymatebydd, hynny yw, a oedd yr ymateb gan unigolyn, busnes neu sefydliad arall. Mae crynodeb o'r canlyniadau yn ôl pob tref wedi'i gynnwys yn Atodiad A ac yn ôl y math o ymatebydd yn Atodiad B.

Mae'r paragraffau sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r casgliadau.

# Prif Gasgliadau


## Cw1: Ydych chi'n ymateb fel... Unigolyn, Busnes, Cyngor Tref a Chymuned, Sefydliad neu Grŵp arall?

Derbyniwyd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion i'r arolwg gan unigolion, 989 neu 88.9%. Fodd bynnag, derbyniwyd 107 o ymatebion gan fusnesau, sy'n cyfateb i ychydig llai na 10% o'r ymatebion ac yn sicrhau bod lleisiau busnesau lleol yn cael eu clywed wrth ymgysylltu. Cafwyd 4 ymateb hefyd gan Gynghorau Tref a Chymuned, ynghyd ag 13 arall gan sefydliadau neu grwpiau eraill yn y sir. Mae'r siart drosodd yn rhoi crynodeb o'r math o ymatebion a gafwyd.




## Cw2: Dewiswch y dref neu'r trefi y mae gennych ddiddordeb ynddyn nhw: Aberystwyth, Aberaeron, Cei Newydd, Aberteifi, Pob un o'r trefi

Er mwyn dadansoddi ymatebion yn ôl pob parth diogel, gofynnwyd i'r ymatebwyr roi enw'r dref yr oedd eu hatebion a'u sylwadau yn cyfeirio ati. Nid yw'n syndod bod y mwyafrif yn cyfeirio at Aberystwyth gyda 672 o ymatebion, tra bo Aberteifi wedi cael 336 o ymatebion, Aberaeron 155 o ymatebion a Chei Newydd 96 o ymatebion, gweler y siart isod. Roedd 87 o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau ar y parthau diogel yn gyffredinol ar draws y pedair tref. (Sylwch y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un dref, felly mae'r cyfanswm yn y siart isod yn fwy na chyfanswm yr ymatebion i'r arolwg).





## Cw3: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chreu parthau diogel yng nghanol trefi?

Ar y cyfan, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (54%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â chreu parthau diogel yng nghanol trefi er mwyn i bobl allu cadw pellter cymdeithasol yn ystod pandemig Covid-19, gweler y siart drosodd. Ategwyd hyn gan nifer o sylwadau ysgrifenedig oedd yn tynnu sylw at fanteision caniatáu i gerddwyr gadw pellter cymdeithasol a theimlo'n fwy diogel o ganlyniad. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol (40%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'u cyflwyno, yn uwch na'r 27% pan ofynnwyd y cwestiwn hwn gyntaf ym mis Awst 2020 gan adlewyrchu sut mae'r farn wedi newid.

## Cw3. Creu parthau diogel

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chreu parthau diogel yng nghanol trefi?**

▼ Canran




Ymysg y trefi unigol, gwelwyd y lefel uchaf o gefnogaeth yn Aberystwyth lle mae bron i 60% yn parhau i gefnogi'r parthau diogel, ac roedd ar ei isaf yn Aberteifi lle mai dim ond 41.3% oedd yn eu cefnogi. Yn wir, Aberteifi oedd yr unig dref lle roedd y mwyafrif (53.6%) o ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â chyflwyno'r parthau diogel. Roedd lefel y gefnogaeth hefyd yn amrywio yn ôl ymatebion gan unigolion ac ymatebion gan fusnesau – roedd 55% o ymatebion gan unigolion oedd o blaid parthau diogel gyda 39% yn eu herbyn. Fodd bynnag, ymysg busnesau dim ond 38% oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'u creu, ac roedd mwyafrif o 58% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â nhw. Mae'r rhain yn themâu cyffredin trwy gydol yr arolwg hwn, gan fod cefnogaeth i'r parthau diogel gan bobl a busnesau Aberteifi yn gyson is na'r ardaloedd eraill. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o lefelau'r gefnogaeth yn ôl tref ac yn ôl y math o ymateb.

Cw3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chreu parthau diogel yng nghanol trefi? – yn ôl tref / math o ymateb

| Tref | Cytuno / Cytuno'n Gryf | Anghytuno / Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|
| Aberystwyth | 59.6% | 33.2% |
| Aberaeron | 51.6% | 43.9% |
| Cei Newydd | 46.9% | 46.9% |
| Aberteifi | 41.3% | 53.6% |
| Unigolion | 55.0% | 38.7% |
| Busnesau | 37.7% | 57.5% |


Roedd y sylwadau ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn yn cynnig cyfle i roi esboniad pellach o'r farn ynghylch creu'r parthau diogel. Mae'r ymatebion yn dangos gwahaniaeth barn rhwng y rhai a deimlai eu bod yn hanfodol er mwyn cynnal diogelwch a chreu awyrgylch mwy croesawgar yn y trefi o'i gymharu â'r rhai a deimlai nad oeddynt yn cael unrhyw effaith ar ddiogelwch pobl, a'u bod mewn gwirionedd yn niweidiol i'r economi leol. Y prif resymau dros gefnogi'r parthau diogel oedd caniatáu i gerddwyr gadw pellter cymdeithasol a theimlo'n ddiogel, llai o draffig ac allyriadau, a'r awyrgylch mwy bywiog a grëwyd ganddynt trwy ganiatáu i gaffis a busnesau eraill weithredu a masnachu yn yr awyr agored. I'r gwrthwyneb, roedd y sylwadau yn erbyn y parthau diogel yn canolbwyntio ar ddiffyg mynediad a lle parcio, yn enwedig i bobl anabl a phobl leol sy'n byw yn y parth diogel neu'n agos ato, a'r cynnydd yn y traffig ar rai llwybrau oherwydd newidiadau i'r ffyrdd, yn enwedig y strydoedd cul yn Aberteifi. Roedd rhesymau eraill yn awgrymu y dylid bod wedi rhoi mwy o ystyriaeth i'r effaith ar fusnesau lleol cyn eu

gweithredu a'u bod yn achosi i bobl deithio i fannau eraill ar gyfer siopau a chyfleusterau oherwydd y problemau mynediad. Cafwyd llawer o sylwadau hefyd yn dweud eu bod yn cytuno *mewn egwyddor* â'r parthau diogel, ond eu bod yn anghytuno â'r modd y cawsant eu *gweithredu* ac a oes eu hangen o hyd yn ystod misoedd tawelach yr hydref a'r gaeaf. Rhestrir rhai o'r dadleuon hyn, o blaid ac yn erbyn, yn y tabl isod.

| Sylwadau Enghreifftiol | |
|---|---|
| O blaid creu'r parthau diogel | Yn erbyn creu'r parthau diogel |
| "Mae canol tref gydag ardaloedd i gerddwyr yn fwy diogel. Mae hefyd yn golygu y gall unigolyn â nam corfforol sy'n defnyddio cadair olwyn gael mwy o ryddid a symud yn haws gan arwain at brofiad siopa mwy pleserus." | "Hollol aneffeithiol, yn enwedig yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyw neb yn dod i mewn i'r dref, hyd yn oed ar y diwrnodau 'prysuraf' a'r unig beth y mae'n ei wneud yw tarfu ar drigolion". |
| "Ar ôl darllen yr holl sylwadau yn y cyfryngau cymdeithasol, mae pob cwyn yn hollol hurt ac mae atebion amlwg iddynt. Mae creu ardal i gerddwyr yng nghanol y dref yn rhywbeth y bu angen ei wneud ers degawdau – ydych chi'n gwybod am unrhyw dref arall lle mae'n rhaid i chi rannu eich gofod personol â cherbydau modur yn ystod eich profiad siopa? Mae wedi gwneud canol y dref yn llawer mwy dymunol a rhoi cyfle i bobl ei ddefnyddio a chadw at fesurau Covid yr un pryd, a thrwy hynny gefnogi busnesau lleol. Dylai parthau diogel barhau ond dylai canol y dref gael ei bedestreiddio'n barhaol a dangos ein bod yn byw yn 2020." | "Mae'n cael effaith negyddol enfawr ar drigolion canol y dref sydd wedi cael eu hanwybyddu trwy gydol y prosesau gwneud penderfyniadau. Mae wedi cynyddu nifer y bobl yn y dref cyn 11am, gan olygu bod dim effaith ar ddiogelwch. Mae tystiolaeth yn dangos bod y tebygolrwydd o ddal y feirws yn yr awyr agored o fewn cyswllt amser cyfyngedig, fel pasio pobl ar y stryd, yn isel iawn, gan wneud y ddadl ddiogelwch yn hollol ddi-sail. Mae'n cael effaith andwyol ar yr anabl a'r henoed. Gallai'r adnodd a ddefnyddir i reoli'r rhwystrau gael ei ddefnyddio'n well yn monitro'r meysydd chwarae a chyfleusterau hamdden sy'n parhau i fod ar gau, gan effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol." |
| "Mae'n gwneud cadw pellter cymdeithasol yn llawer haws, yn rhoi cyfle i fusnesau lletygarwch wneud y gorau o sefyllfa ofnadwy ac mae digon o le parcio yn agos at ganol y dref yn Aberystwyth." | "Mae'n dinistrio cynllun y dref ac yn gwneud i bawb eisiau mynd i rywle arall. Fe ddylech fod wedi gofyn i'r trigolion. Wedi'i weithredu'n wael iawn." |
| "Mae cau'r strydoedd i draffig yn hanfodol er mwyn diogelu cerddwyr a chadw pellter cymdeithasol. Yn yr ychydig wythnosau pan ailddechreuodd y traffig roedd pobl yn cerdded ysgwydd wrth ysgwydd ar y palmant. Efallai fod mwy o bobl yn y dref, ond mae cynnydd yn cv-19 nawr. Yn ystod yr haf roedd y dref yn brysur a'r busnesau hefyd. Roedd naws grêt yno ac roedd pobl leol yn teimlo'n fwy diogel yn mentro allan." | "Diffyg ystyriaeth lwyr i fusnesau gan bobl nad ydynt mewn byd busnes eu hunain, mae digon o le i gerdded ar hyd y strydoedd yn ddiogel heb achosi anhrefn llwyr. Byddai ychydig o bedestreiddio yn syniad da, ond heb yr holl rwystrau hyll ym mhob man." |
| "Yn yr haf, roedd y defnydd creadigol o fyrddau a chadeiriau a photiau o blanhigion yn blodeuo y tu allan i'r caffis a'r bwytai amrywiol wedi rhoi naws gyfandirol i'r dref ac ar yr un pryd teimlad o fywyd yn symud yn arafach sydd i'w groesawu'n fawr. Roeddwn i'n teimlo'n fwy diogel ar y strydoedd nid yn unig oherwydd bod hi'n bosibl cadw pellter cymdeithasol, ond roedd yn lle mwy diogel i blant ifanc heb y llif cyson o draffig. Mae'n rhaid bod annog pobl i gerdded, efallai ymhellach na'r arfer yn helpu eu llesiant a gallai gael effaith fach (er yn fach iawn) ond o leiaf effaith gadarnhaol ar leihau allyriadau cerbydau." | "Rwy'n anghytuno â chreu parthau diogel canol trefi oherwydd ei fod yn gwneud gweddill y dref yn anniogel gan fod traffig trwm yn mynd lawr ffyrdd cul heb unrhyw balmentydd. Beth fydd cerddwyr yn ei wneud?" |

## Cw4: I ba raddau ydych chi'n credu y dylem ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd yng nghanol trefi cyn pandemig y coronafeirws?

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ynghylch a ddylai canol trefi ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig neu a ddylid cadw'r parthau diogel. Rhannwyd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn bron yn gyfartal – roedd 47% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, tra bo 45% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd y gyfran fwyaf o'r ymatebwyr (35%) yn cytuno'n gryf â'r farn hon, gweler y siart isod.




Fodd bynnag, trwy ddadansoddi yn ôl tref ac yn ôl math o ymatebydd, roedd amrywiadau mawr eto yn y canlyniadau. Yn Aberystwyth, roedd mwyafrif (53.3%) yn anghytuno y dylai canol y dref ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig, ond yng Nghei Newydd ac Aberteifi roedd y farn i'r gwrthwyneb ac roedd mwyafrif o blaid dychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd – 54.3% yng Nghei Newydd a 62.0% yn Aberteifi. Roedd yr ymatebion a gafwyd gan unigolion ychydig yn fwy tebygol o anghytuno â dychwelyd canol trefi i'r sefyllfa fel ag yr oedd, tra bo ymatebion gan fusnesau yn dangos lefelau clir o gefnogaeth dros ddychwelyd canol trefi i'r sefyllfa fel ag yr oedd, gyda 68.9% yn dweud eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â dychwelyd canol trefi i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig. Gweler y tabl isod am y canlyniadau llawn yn ôl tref.

Cw4. I ba raddau ydych chi'n credu y dylem ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd yng nghanol trefi cyn pandemig y coronafeirws? – yn ôl tref / math o ymateb

| Tref | Cytuno / Cytuno'n Gryf | Anghytuno / Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|
| Aberystwyth | 37.9% | 53.3% |
| Aberaeron | 48.4% | 42.6% |
| Cei Newydd | 54.3% | 34.0% |
| Aberteifi | 62.0% | 31.1% |
| Unigolion | 44.4% | 46.9% |
| Busnesau | 68.9% | 26.4% |


Mae'r sylwadau ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth barn ar y parthau diogel, o blaid ac yn erbyn. Roedd y rhesymau a roddwyd ar gyfer y ddwy farn yn ailadrodd i raddau helaeth y rhai yn y cwestiwn blaenorol. O blaid y parthau diogel oedd y farn bod canol trefi yn fwy diogel, bod

pobl yn teimlo'n fwy diogel a'u bod yn creu naws llawer mwy hamddenol heb gerbydau, ac aeth rhai mor bell ag awgrymu y dylid eu cadw naill ai'n barhaol neu'n dymhorol. Fodd bynnag, roedd rhai yn gwrthwynebu'n gryf cadw'r parthau diogel – roedd rhai'n cwestiynu pam y byddai eu hangen gan fod y broses frechu bellach ar y gweill, roedd rhai yn beirniadu'r Cyngor am beidio ag ystyried barn busnesau, a nododd eraill fod y parthau diogel yn gwneud pethau'n waeth i fusnesau lleol a oedd eisoes yn ei chael hi'n anodd. Rhestrir sylwadau enghreifftiol sy'n dangos y gwahaniaeth barn yn y tabl isod.

| Sylwadau Enghreifftiol | |
|---|---|
| O blaid cadw'r parthau diogel | O blaid dychwelyd canol trefi i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig |
| "Mae'r ardaloedd i gerddwyr wedi creu awyrgylch llawer gwell, hamddenol a diogel yn y dref. Roedd pobl i'w gweld yn llawer hapusach i fynd am dro, crwydro a threulio amser yn mwynhau'r dref." | "Mae'r brechlyn yn cael ei roi felly fydd ddim llawer o ddyfodol i Covid. Ar y llaw arall bydd creu ardaloedd i gerddwyr yn hirdymor ac yn anodd iawn ei wrthdroi. Nid oes angen cael mesur mor llym unwaith y bydd y pandemig yn dechrau lleihau (a. bydd hynny'n gymharol fuan)" |
| "Maen nhw wedi darparu amgylchedd diogel lle mae cadw pellter cymdeithasol yn bosibl, ond hefyd ardaloedd heb draffig. Mae wedi trawsnewid canol y dref gan ei wneud yn lle llawer brafiach a mwy bywiog." | "Roedd y parth diogel, fel y'i gelwir, yn gwneud pethau'n waeth mewn gwirionedd. Roedd rhannau mawr o'r palmentydd wedi eu cymryd drosodd gan gaffis. Felly pan oedd ein gyrwyr dosbarthu nwyddau yn gyrru trwy'r dref, dim ond un ochr o'r stryd oedd gan y cerddwyr i gamu arni. Byddai'r ochrau eraill wedi cael eu cymryd drosodd gan gaffis a thafarndai. Siop siafins llwyr." |
| "Rwy'n meddwl bod y parthau diogel wedi bod yn fuddiol iawn, mae wedi rhoi naws hamddenol hyfryd i'r dref, ac rydw i wedi gwario mwy o arian yn lleol drwy dreulio mwy o amser yn y dref, nid dim ond rhuthro i mewn ac allan." | "Dylai'r Cyngor fod yn fwy ymwybodol o anghenion y rheiny sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan eu gweithredoedd, yn yr achos hwn trigolion a busnesau yn y parth diogel." |
| "Dwi ddim yn gweld bod unrhyw angen i yrru i lawr y stryd fawr, mae digon o feysydd parcio, ac os gallai taliadau parcio gael eu cadw'n rhad ac am ddim neu'n is, byddai hynny'n fonws." | "Mae angen buddsoddiad yn hytrach na chyfyngiadau ar y dref. Dylid annog busnesau bach i lenwi'r siopau gwag trwy ostwng neu ddileu ardrethi a chynllun i annog landlordiaid i ostwng rhenti i lefelau mwy ymarferol. Mae angen gwella'r sefyllfa o ran parcio yn ddirfawr – beth am gael lleoedd parcio wedi'i ddiffinio'n glir yn y dref – lleoedd arhosiad byr 'pigo i'r siopau' i bobl sydd angen hanner awr yn ystod amser cinio i fynd i'r banc a chael brechdan, lleoedd arhosiad hwy, 'aros trwy'r dydd' i'r rhai sydd am fwynhau'r caffis. Ystyried parcio i drigolion yn bosibl. Ailgyflwyno parcio a theithio am ddim. Meysydd parcio'r Cyngor yn rhad ac am ddim trwy'r amser. Arwyddion a mapiau ger Cloc y Dref, Rhodfa'r Gogledd, y Bandstand a'r orsaf. Ceisio pwysleisio'r hyn sy'n unigryw a symud i ffwrdd o'r dref glôn siopau gwag sydd i'w gweld ar hyn o bryd. I wneud hynny mae angen pobl a bydd cyfyngiadau yn cadw pobl draw." |
| "Byddwn i dwli gweld rhywfaint o bedestreiddio yn parhau. Mae wedi gwneud canol y dref yn lle llawer mwy dymunol i gerdded o'i gwmpas." | "Bydd y pandemig yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol gobeithio o fewn y 12 mis nesaf ac ni fydd unrhyw reswm pam na all pethau ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd." |
| "Yn ystod yr haf roedd hi'n wych gweld rhyw fath o ddiwylliant caffis yn cael ei greu, a doedd hyn ddim i'w weld yn effeithio ar lif cerddwyr oedd yn gallu cerdded o'u cwmpas yn rhwydd." | "Does dim digon o bobl i gyfiawnhau'r cyfyngiadau hyn. Ac mae'n lladd y busnesau. Ac yn lladd y dref ei hun." |

### Cw5: I ba raddau ydych chi'n credu y dylai parthau diogel canol trefi fod ar waith pan fydd risg o goronafeirws?

Gyda'r pandemig yn parhau yn 2021, roedd y cwestiwn nesaf yn ceisio barn ynghylch a ddylai parthau diogel fod ar waith pan fydd risg o goronafeirws yn y sir. Mae'r canlyniadau cyffredinol yn dangos bod 55% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r farn hon, tra bod ychydig dros ddwy ran o dair (34%) yn anghytuno / anghytuno'n gryf. Roedd y gyfran fwyaf o ymatebwyr (37%) yn cytuno'n gryf, ac roedd 10% arall yn niwtral neu heb unrhyw farn, gweler y siart isod.




Fodd bynnag, yn debyg i'r cwestiynau blaenorol yn yr arolwg, roedd lefel y gefnogaeth yn amrywio yn ôl y dref. Er enghraifft, roedd ar ei uchaf ymysg ymatebion ar gyfer Aberystwyth ac Aberaeron lle roedd 62.2% a 53.5% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth yn llawer is yn Aberteifi lle roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn anghytuno â chael y parthau diogel ar waith pan fydd risg o goronafeirws. At hynny, trwy eu rhannu yn ôl ymatebion gan unigolion a chan fusnesau, gwelwn wahaniaeth barn amlwg – roedd y mwyafrif o'r ymatebion gan unigolion (57.0%) yn cytuno / yn cytuno'n gryf y dylai'r parthau diogel fod yn eu lle pan fydd risg o goronafeirws, ond ymysg busnesau roedd mwyafrif o 52.0% yn anghytuno / anghytuno'n gryf. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r canlyniadau yn ôl tref a math o ymatebydd.

Cw5. I ba raddau ydych chi'n credu y dylai parthau diogel canol trefi fod ar waith pan fydd risg o goronafeirws? – yn ôl tref / math o ymateb

| Tref | Cytuno / Cytuno'n Gryf | Anghytuno / Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|
| Aberystwyth | 62.2% | 28.3% |
| Aberaeron | 53.5% | 39.4% |
| Cei Newydd | 49.5% | 43.2% |
| Aberteifi | 42.5% | 46.8% |
| Unigolion | 57.0% | 33.3% |
| Busnesau | 38.2% | 52.0% |

Mae'r sylwadau ysgrifenedig unwaith eto'n adlewyrchu'r ddau safbwynt gwahanol, y rhai sydd yn cytuno'n gryf â chadw'r parthau diogel pan fydd risg o goronafeirws a'r rhai sy'n teimlo y dylid cael

gwared â'r parthau. O ran y rhai sy'n cefnogi'r parthau diogel, roedd sylwadau yn canolbwyntio ar y ffordd yr oeddynt yn caniatáu i bobl gadw pellter cymdeithasol ac felly'n teimlo'n fwy diogel wrth ymweld â chanol y dref, ac aeth rhai mor bell â dweud y dylent fod yn nodwedd barhaol yn nhrefi Ceredigion. Cafwyd nifer o sylwadau hefyd yn nodi er eu bod yn cefnogi'r parthau diogel mewn egwyddor nid oeddynt yn teimlo ei bod yn briodol i gau cymaint o'r dref ac y gellid eu gweithredu yn well drwy newid rhywfaint ar y cynllun.


I'r gwrthwyneb, roedd y sylwadau yn erbyn cadw'r parthau diogel yn fwy amrywiol – teimlai rhai, wrth gyflwyno'r brechlyn dros y misoedd nesaf bod dim angen eu cadw, roedd eraill yn canolbwyntio ar fusnesau lleol sy'n ei chael hi'n anodd gan awgrymu na ellir caniatáu i'r parthau diogel niweidio'r economi leol sydd eisoes yn gwegian, a phwysleisiai eraill yr angen i bobl anabl a phobl leol gael mynediad i ganol y dref o hyd. Cwestiynodd rhai a oeddent yn cael unrhyw effaith ar gadw pobl yn ddiogel o gwbl. Cyflwynir sampl o'r sylwadau hynny a dderbyniwyd yn y tabl isod.

| Sylwadau Enghreifftiol | |
|---|---|
| O blaid y parthau diogel pan fydd risg o goronafeirws | Yn erbyn parthau diogel pan fydd risg o goronafeirws |
| "Os oes risg difrifol o ddal yr haint yn y dref, yna ydw, rwy'n cytuno y dylai'r mesurau fod ar waith ar y stryd fawr yn unig er mwyn cadw pellter cymdeithasol priodol, ond does dim angen cau'r dref i gyd." | "Unwaith eto rhaid gwneud hyn mewn ffordd fwy ystyriol. Does dim pwynt cau'r dref os yw hyn yn atal pobl rhag mynd yno oherwydd bydd yn achosi i fwy o fusnesau gau ac yn y pen draw bydd y dref yn wag." |
| "Mewn achos brys, dylid rhoi mesurau dros dro yn eu lle yn ystod y tymor twristiaeth i ddiogelu ymwelwyr a thrigolion." | "Mae'n wael i fusnesau sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd. Mae digon o le yn yr awyr agored yn barod. Rhaid i ni beidio â gadael i Covid ladd bywydau trwy ladd busnesau bach. Mae'r rhai sy'n agored i niwed yn teimlo'n ddiogel yn cyrraedd mewn car yn hytrach nag aros ar y stryd a cherdded ar y llwybr gwyro gyda'r traffig yn eu clipio." |
| "Coronafeirws neu beidio rwy'n meddwl y byddai parthau diogel o fudd i'r dref yn ystod gwyliau'r haf, y Pasg a'r Nadolig." | "Rwy'n credu bod y parthau diogel wedi cyflawni rhyw bwrpas yn ystod misoedd prysuraf yr haf ar gyfer caffis, lle gallai cwsmeriaid eistedd y tu allan, ond heblaw am fisoedd prysuraf yr haf nid yw'r parthau diogel yn helpu busnesau na thrigolion lleol i elwa o'u tref, na hyd yn oed ymwelwyr. Fydd y coronafeirws ddim yn rhywbeth parhaol ac felly mae'n anghymesur i gyfiawnhau creu newidiadau parhaol i gynllun a chymeriad y dref ar y sail honno (pan nad yw ei effeithlonrwydd ymhell o fod wedi'i brofi)". |
| "Rwy'n cytuno â'r parthau diogel fel mesur i reoli cyswllt person i berson a chadw busnesau ar agor yr un pryd." | "Pan fydd y brechlyn ar gael, pam cadw'r ffordd ar gau? Mae'n debyg y bydd y brechlyn gyda ni ym mis Ionawr a dyna fydd diwedd ar gau ffyrdd, gobeithio. Mae wedi bod yn drychinebus yn Aberteifi. Dyw pobl, yn enwedig pobl hŷn ddim yn gallu gyrru i'r siopau ac mae'n atal rhai twristiaid rhag dod yma. Dim ond gobeithio y gallwn fynd yn ôl i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn gynted ag y bo modd." |
| "Yn bendant dylent fod yno pan fydd risg o ddal y coronafeirws." | "Mae angen i bobl leol gael mynediad i siopau, swyddfeydd, banciau ac ati. Mae'n fwyfwy anodd i wneud hynny gyda'r ffyrdd ar gau." |
| "Fe ddylen nhw fod yno beth bynnag fo bygythiad Covid." | "Mae manteision y parthau diogel ddim yn ymwneud â'r pandemig. Nid yw pobl sy'n pasio ei gilydd am eiliad fach ar y stryd yn creu bygythiad mawr gan y feirws. O ran hynny, mae parthau diogel canol trefi yn fwy neu lai yn fath o arwydd o rinweddau. Dylai'r Cyngor dargedu ei ymdrechion ar y bygythiadau go iawn, fel pobl yn dod at |

| | |
|---|---|
| | ei gilydd mewn ffordd anghyfreithlon, busnesau di-hid sydd ddim yn cydymffurfio, ac yn y blaen yn hytrach na chymryd y dewis hawdd a chosbi busnesau lleol a dinasyddion synhwyrol sy'n parchu'r gyfraith wrth iddynt geisio gwneud bywoliaeth". |

## Cw6: I ba raddau ydych chi'n credu bod angen cynlluniau hirdymor i adfywio ein canol trefi? Gallai'r rhain gynnwys parthau cerddwyr tymhorol neu barhaol, tirweddu a gwelliannau i'r amgylchedd.

Trodd y cwestiwn nesaf y ffocws oddi wrth y parthau diogel a thuag at ddatblygu canol trefi yn y dyfodol. Ar y cyfan, roedd mwyafrif o 70% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r angen am gynlluniau hirdymor newydd ar gyfer adfywio canol trefi Ceredigion, gyda bron hanner (48%) yn dweud eu bod yn cytuno'n gryf â'r farn hon. Fodd bynnag, er bod cefnogaeth glir dros gynlluniau hirdymor newydd, roedd 20% yn meddwl i'r gwrthwyneb hefyd, gweler y siart isod.




Er bod mwyafrif clir ar y cyfan yn cefnogi'r angen am gynlluniau hirdymor, roedd lefel y gefnogaeth yn amrywio yn ôl y dref. Yn debyg i'r cwestiynau blaenorol, gwelwyd y lefelau uchaf o gefnogaeth yn Aberystwyth lle roedd 77.7% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, ac ymysg yr ymatebion gan unigolion lle roedd 70.7% yn cytuno / cytuno'n gryf. Ym mhen arall y raddfa, roedd yr ymatebion yn ymwneud ag Aberteifi yn dangos lefel is o gefnogaeth – 56.2% yn cytuno / cytuno'n gryf, ac roedd bron un rhan o dair (32.0%) yn anghytuno / anghytuno'n gryf. At ei gilydd, roedd mwyafrif ym mhob tref yn gefnogol o'r angen am gynlluniau hirdymor newydd, sydd i'w gweld yn y rhai isod.

Cw6. I ba raddau ydych chi'n credu bod angen cynlluniau hirdymor i adfywio ein canol trefi? – yn ôl tref / math o ymateb

| Tref | Cytuno / Cytuno'n Gryf | Anghytuno / Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|
| Aberystwyth | 77.7% | 14.7% |
| Aberaeron | 65.4% | 25.5% |
| Cei Newydd | 63.0% | 25.0% |
| Aberteifi | 56.2% | 32.0% |
| Unigolion | 70.7% | 20.3% |
| Busnesau | 64.2% | 27.4% |

## Cw7: Nodwch, os gwelwch yn dda, dri pheth pwysig yr hoffech chi eu gweld mewn unrhyw gynlluniau hirdymor ar gyfer ein canol trefi.

Roedd Cwestiwn 7 am gael syniadau a safbwyntiau penodol ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yng nghynlluniau'r dyfodol ar gyfer datblygu canol trefi. Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio'r tri pheth pwysig yn nhrefn eu pwysigrwydd. Cafwyd dros 2,900 o atebion i'r cwestiwn hwn.

Parcio oedd y pwnc mwyaf cyffredin ar draws y pedair tref, gyda llawer yn galw am fwy o ddarpariaeth barcio yng nghanol trefi ac yn agos atynt, ac i barcio fod yn rhad ac am ddim. Roedd galwadau hefyd am fwy o le parcio i'r anabl i helpu deiliaid Bathodyn Glas a phobl anabl i gael mynediad i ganol trefi a'r cyfleusterau gan gydnabod bod y ddau grŵp yn ei chael hi'n anodd i fynd yn ddigon agos i'r siopau a'r cyfleusterau a ddefnyddiant. Soniwyd yn aml hefyd am gyflwyno cynlluniau i greu ardaloedd i gerddwyr ar gyfer pob un o'r trefi, yn amrywio o awgrymiadau y dylid creu ardaloedd i gerddwyr ar gyfer rhai ffyrdd ac ardaloedd parhaol i gerddwyr, i gau ffyrdd penodol yn dymhorol i gyd-fynd â'r tymor twristiaeth prysuraf. Y rhesymau a roddwyd oedd gwella diogelwch i gerddwyr a'r anabl, lleihau tagfeydd, lleihau llygredd a helpu i greu canol trefi mwy bywiog.

Yn dilyn parcio a chreu ardaloedd i gerddwyr cafwyd amrywiaeth eang o awgrymiadau eraill. Yn Aberystwyth cafwyd sylwadau yn ymwneud ac ardrethi busnes is i annog busnesau newydd i agor, yn enwedig yn sgil pandemig y coronafeirws, i helpu i adfywio canol y dref a chefnogi busnesau lleol. Yn Aberaeron cafwyd awgrymiadau eu gwneud mewn perthynas â chelfi stryd a seddi ychwanegol er mwyn i bobl gael gorffwys, yn enwedig pobl oedrannus ac anabl, a hefyd sylwadau mewn perthynas â glendid cyffredinol strydoedd a'r angen am lanhau ychwanegol.

Yn Aberteifi, canolbwyntiodd yr ymatebion ar awgrymiadau i leddfu effaith y parth diogel, fel ehangu palmentydd ar y strydoedd cul oedd yn anniogel i gerddwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn. Yn ogystal, er mwyn helpu i leddfu hyn a thagfeydd traffig yn gyffredinol, cafwyd awgrymiadau hefyd i ddarparu gwell ddargyfeiriadau i ffwrdd o'r strydoedd cul hyn a thuag at y ffordd osgoi.

| Aberystwyth |
|---|
| 1. Parcio – mwy o barcio yng nghanol y dref ac o'i chwmpas, mwy o barcio i'r anabl, parcio am ddim neu leihau cost parcio, ailgyflwyno'r system Parcio a Theithio. |
| 2. Creu ardal i gerddwyr – naill ai'n barhaol neu'n dymhorol. |
| 3. Ardrethi busnes is i helpu i adfywio canol y dref ac adfer ar ôl Covid-19. |

| Aberaeron |
|---|
| 1. Parcio – darparu lle parcio am ddim yng nghanol y dref ac o'i chwmpas, mwy o le parcio yng nghanol y dref. |
| 2. Creu ardal i gerddwyr – naill ai o gwmpas canol y dref neu mewn rhai strydoedd yn dymhorol. |
| 3. Seddi yn yr awyr agored a strydoedd glân. |

| Cei Newydd |
|---|
| 1. Parcio – darparu parcio am ddim a pharcio ychwanegol i'r anabl |
| 2. Awgrymiadau amrywiol, gan gynnwys creu ardal i gerddwyr yn ystod cyfnodau prysur ymwelwyr, gwella golwg y lle a chelfi stryd ychwanegol, glendid, mwy o gyfleusterau ar gyfer seddi / bwyta yn yr awyr agored |
| |

| Aberteifi |
|---|
| 1. Parcio – darparu parcio am ddim yn y dref a mwy o leoedd parcio yn y dref yn enwedig ar gyfer Deiliaid Bathodyn Glas a phobl anabl |
| 2. Creu ardal i gerddwyr – naill ai'n barhaol neu'n dymhorol. |
| 3. Palmentydd lletach a gwell ddargyfeiriadau i ffwrdd o strydoedd cul |

## Cw8: Hoffem wybod a oes gennych unrhyw syniadau am welliannau y gallem eu gwneud yn y parthau diogel i gynorthwyo busnesau canol tref.

Roedd cwestiwn 8 yn gwahodd ymatebwyr i gynnig awgrymiadau ar gyfer y gwelliannau y gellid eu gwneud i'r parth diogel i helpu busnesau canol tref a'r economi leol. Rhoi mwy o fynediad i ganol y dref oedd yr awgrym mwyaf cyffredin yn Aberystwyth, Aberaeron a Chei Newydd, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o sylwadau gan gynnwys darparu mwy o leoedd parcio yn enwedig ar gyfer pobl anabl ynghyd â chyflwyno cynlluniau parcio a theithio i wella mynediad i ganol trefi ond heb yr angen i yrru iddynt. Roedd darparu lleoedd parcio am ddim hefyd yn awgrym poblogaidd, er mwyn annog pobl i ymweld a siopa yn yr ardaloedd hynny sydd â pharthau diogel yn hytrach na theithio i rywle arall.

Yn benodol yn Aberteifi, codwyd pryderon mawr ynghylch yr effaith ar fusnesau lleol a'u cynaliadwyedd gyda'r parth diogel yn ei lle. Felly, yr awgrym mwyaf cyffredin oedd cael gwared ar y parth diogel yn ei gyfanrwydd, ac roedd yn awgrym amlwg iawn ymysg yr ymatebion a gafwyd i'r trefi eraill hefyd. Yn Aberteifi codwyd pryderon ynghylch cynllun y parth diogel a bu galwadau i newid y system cau ffyrdd er mwyn osgoi tagfeydd ar strydoedd cul a'u gwneud yn fwy diogel i gerddwyr. Dangosir yr awgrymiadau mwyaf cyffredin ar draws y pedair tref yn y tabl isod.

| Aberystwyth |
| --- |
| 1. Mwy o fynediad i ganol y dref, gan gynnwys ailgyflwyno Parcio a Theithio, mwy o le parcio i'r anabl a pharcio am ddim |
| 2. Newid cynllun y parth diogel –cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau ynghylch pa ffyrdd dylai fod yn ardaloedd i gerddwyr a pha rai ddylai fod ar agor, er nad oedd consensws barn. |
| 3. Cael gwared â'r parthau diogel |

| Aberaeron |
| --- |
| 1. Gwella mynediad i ganol y dref, gan gynnwys ailgyflwyno lleoedd parcio am ddim, cyflwyno system parcio a theithio, darparu lle parcio yn agosach at y siopau, caniatáu mynediad i bobl anabl a cherbydau dosbarthu nwyddau i fusnesau. |
| 2. Cael gwared â'r parth diogel |
| 3. Cadw'r parth diogel naill ai fel ag y mae neu ei wella. |

| Cei Newydd |
| --- |
| 1. Gwella mynediad i ganol y dref, gan gynnwys mynediad cyfartal ar gyfer cerbydau nwyddau busnesau, cynyddu lleoedd parcio ger canol y dref, gwasanaeth parcio a theithio, meysydd parcio am ddim neu leihau taliadau tymor byr a mynediad i bobl anabl. |
| 2. Cael gwared â'r parth diogel |
| 3. Newid cyfnod a hyd y parth diogel. Amrywiaeth o awgrymiadau gan gynnwys gorfodi cyfyngiadau yn hwyrach yn y dydd er mwyn i gerbydau allu dosbarthu nwyddau y pryd hynny, oriau parth diogel hwy, a pharth diogel tymhorol. |

| Aberteifi |
| --- |
| 1. Cael gwared â'r parth diogel |
| 2. Gwella mynediad i ganol y dref, gan gynnwys system parcio a theithio, mwy o le parcio i'r anabl, caniatáu mynediad i'r parth diogel i bobl anabl a'r henoed, cynyddu'r lleoedd parcio ger canol y dref a gwella mynediad i gerbydau dosbarthu nwyddau |
| 3. Newid cynllun y parth diogel er mwyn osgoi tagfeydd traffig, ac ymestyn palmentydd i helpu busnesau. |

## Cw9: Hoffem wybod a oes gennych unrhyw syniadau am welliannau y gallem eu gwneud i'r parthau diogel ar gyfer pobl sy'n byw yng nghanol trefi neu'n agos i ganol trefi.

Roedd y cwestiwn nesaf yn parhau ar yr un trywydd, ond gan ganolbwyntio ar welliannau i bobl sy'n byw yng nghanol trefi neu'n agos atynt. Unwaith eto mynediad a pharcio i drigolion oedd y prif bynciau trafod, ac fe'u gwelwyd yn y sylwadau ysgrifenedig ar gyfer Aberystwyth, Aberaeron a Chei Newydd. Roedd nifer o sylwadau yn awgrymu y dylid caniatáu mynediad trwy'r parth diogel yn ystod y dydd i breswylwyr barcio a chael mynediad i'w heiddo. Yn gysylltiedig â hyn oedd yr awgrymiadau ar draws yr un tair tref y dylid gwella'r ddarpariaeth barcio, ac yn benodol y dylai parcio mewn meysydd parcio sy'n eiddo'r Cyngor fod yn rhad ac am ddim gan fod llai o leoedd parcio ar gael o ganlyniad i'r parth diogel.

Aeth ymatebion mewn perthynas â Chei Newydd un cam ymhellach, gan awgrymu y dylid neilltuo lleoedd parcio i drigolion er mwyn i'r rhai sy'n byw yn y parth diogel allu parcio wrth ymyl eu heiddo. Yn Aberteifi, y pwnc pwysig unwaith yn rhagor oedd y cynnydd yn y traffig sy'n defnyddio strydoedd cul heb fawr neu ddim palmentydd, a'r tagfeydd a'r perygl posibl i gerddwyr a achosir oherwydd hynny. O ganlyniad, yr awgrym a godwyd amlaf oedd newid y cynllun a dargyfeirio traffig i ffwrdd o'r strydoedd hyn. Yn gysylltiedig â hyn, cafwyd nifer o awgrymiadau yn nodi y byddai gwella a chynyddu arwyddion yn helpu i hysbysu defnyddwyr ffyrdd am lwybrau gwahanol pan fydd y parth diogel yn ei le, ac felly lleihau'r traffig cyn ei fod yn dod i mewn i'r dref. Yn yr un modd â'r cwestiynau blaenorol yn yr arolwg, roedd ymatebwyr a deimlai'n gryf yn erbyn creu'r parthau diogel wedi mynegi eu pryder ynghylch yr effaith ar fusnesau a thrigolion lleol, gan alw am gael gwared â'r parthau diogel. Dangosir y gwelliannau a awgrymir ar draws y pedair tref yn y tabl isod.

Gwelliannau a awgrymir ar gyfer y parthau diogel i bobl sy'n byw yn y dref neu'n agos ati

| Aberystwyth |
|---|
| 1. Mynediad – caniatáu mynediad trwy gydol y dydd i drigolion sy'n byw yn y parth diogel er mwyn iddynt allu parcio a chael mynediad i'w heiddo |
| 2. Cael gwared â'r parth diogel |
| 3. Parcio – cynyddu mynediad i leoedd parcio o amgylch yr ardal a darparu parcio am ddim oherwydd fel hynny y byddai ar gyfer trigolion yn eu heiddo |

| Aberaeron |
|---|
| 1. Cael gwared â'r parth diogel |
| 2. Parcio – darparu lleoedd parcio am ddim, er enghraifft, mewn meysydd parcio sy'n eiddo'r Cyngor. |
| |

| Cei Newydd |
|---|
| 1. Mynediad – caniatáu mynediad trwy gydol y dydd i drigolion sy'n byw yn y parth diogel er mwyn gallu parcio a chael mynediad i'w heiddo |
| 2. Parcio – lleoedd parcio penodol i breswylwyr er mwyn sicrhau y gallant barcio wrth ymyl eu heiddo yn y parth diogel |
| 3. Cael gwared â'r parth diogel |

| Aberteifi |
|---|
| 1. Traffig – gwyro traffig i ffwrdd o strydoedd preswyl cul sy'n beryglus oherwydd y cynnydd yn y traffig |
| 2. Cael gwared â'r parth diogel |
| 3. Arwyddion – gwella a chynyddu'r arwyddion er mwyn hysbysu defnyddwyr ffyrdd am lwybrau gwahanol pan fydd y parth diogel ar waith, i leihau'r traffig |

## Cw10. Hoffem wybod a oes gennych unrhyw syniadau am welliannau y gallem eu gwneud i'r parthau diogel ar gyfer pobl anabl, deiliaid Bathodyn Glas a phobl oedrannus.

Derbyniwyd cyfanswm o 668 o sylwadau ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Wrth ystyried gwelliannau yn benodol ar gyfer pobl anabl, deiliaid Bathodyn Glas a'r henoed, roedd themâu cyffredin ar draws pob un o'r trefi – darparu lle parcio ychwanegol i'r anabl a chaniatáu mwy o fynediad i ganol trefi. Cafodd parcio ei nodi yn y tri gwelliant pwysig ar gyfer pob un o'r trefi, ac yn benodol yr angen am fannau parcio ychwanegol i'r anabl, naill ai o fewn neu'n agos iawn at y parthau diogel. Ychwanegodd rhai ymatebwyr yn Aberaeron a Chei Newydd y gellid gwella'r arwyddion i'r lleoedd parcio presennol i'r anabl i gyfeirio ymwelwyr â'r dref at leoliad y cyfleusterau parcio i'r anabl.

Roedd mynediad i'r parthau diogel hefyd yn amlwg ar draws y trefi gydag ymatebwyr yn enwedig yn Aberystwyth ac Aberteifi yn awgrymu y byddai caniatáu mynediad trwy gydol y dydd neu am gyfnodau cyfyngedig, yn help mawr trwy leihau pellteroedd cerdded. Gwnaed amrywiaeth o awgrymiadau mwy penodol eraill hefyd, gan gynnwys gosod rampiau i helpu pobl i fynd ar ac oddi ar y cyrbau, seddi ychwanegol i helpu pobl i orffwys o ganlyniad i'r pellteroedd cerdded ychwanegol, ac roedd rhai wedi awgrymu cynlluniau Parcio a Theithio er mwyn i bobl allu parcio y tu allan i ganol y dref a theithio i mewn i ganol y dref. Ceir crynodeb o'r awgrymiadau a godir amlaf yn ôl tref yn y tabl isod.

Gwelliannau a awgrymir i'r parthau diogel ar gyfer pobl anabl, Deiliaid Bathodyn Glas a phobl oedrannus

| Aberystwyth | |
|---|---|
| 1. | Parcio – caniatáu i Ddeiliaid Bathodyn Glas barcio o fewn y parth, mor agos â phosib i'r parth neu neilltuo un stryd ar gyfer parcio i'r anabl. |
| 2. | Mynediad – mwy o fynediad i'r parthau diogel, naill ai trwy gydol y dydd neu am gyfnod cyfyngedig, a chaniatáu mynediad i dacsis / trafnidiaeth sy'n cludo pobl anabl, Deiliaid Bathodyn Glas a phobl oedrannus. |
| 3. | Awgrymiadau amrywiol, gan gynnwys gosod rampiau ar y cyrbau newydd a seddi ychwanegol fel y gall pobl orffwys oherwydd y cynnydd yn y pellteroedd cerdded. |

| Aberaeron | |
|---|---|
| 1. | Parcio – mwy o leoedd parcio i'r anabl a lleoedd parcio mwy cyffredinol yn Aberaeron ac yn agos at y dref. |
| 2. | Awgrymiadau amrywiol, gan gynnwys gostwng palmentydd, mannau eistedd newydd i orffwys, gwella arwyddion yn dangos lleoliad mannau parcio i'r anabl ac awgrymodd rhai y dylid cael gwared â'r parthau yn gyfan gwbl. |

| Cei Newydd | |
|---|---|
| 1. | Parcio – mwy o leoedd parcio i'r anabl yn y parth diogel ac yn agos ato a chaniatáu i Ddeiliaid Bathodyn Glas ddod i mewn i'r parth bob amser. |
| 2. | Arwyddion – gwella arwyddion yn dangos lleoliad mannau parcio i'r anabl ac arwyddion cyffredinol i leoliad y ffyrdd sydd ar gau. |
| 3. | Cael gwared â'r parth diogel. |

| Aberteifi | |
|---|---|
| 1. | Mynediad – Deiliaid Bathodyn Glas yn cael mynediad i'r parth trwy gydol y dydd ynghyd â thacsis / trafnidiaeth sy'n cludo Deiliaid Bathodyn Glas. |
| 2. | Parcio – mwy o barcio i'r anabl yn y parth diogel ac yn agos ato gan leihau'r pellteroedd sy'n rhaid cerdded. |
| 3. | Cyflwyno cynllun ' Parcio a Theithio ' i ganol y dref, gan leihau unwaith eto y pellteroedd y mae'n rhaid cerdded. |

## Cw11. A oes gennych sylwadau am barthau diogel a chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Derbyniwyd cyfanswm o 465 o sylwadau i'r cwestiwn hwn. Roedd nifer fawr o ymatebion yn cwestiynu cynnwys y cwestiwn hwn yn yr arolwg, gan ddweud nad oeddent yn deall y cyswllt rhwng creu'r parthau diogel yn y pedair tref a chyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, ymhlith yr ymatebion a oedd yn weddill roedd barn gryf bod yn rhaid i'r holl arwyddion / cyfathrebiadau sy'n ymwneud â'r parthau diogel fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

Roedd y farn ynghylch a oedd y parthau diogel yn hyrwyddo neu'n lleihau'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi'i rhannu – awgrymodd rhai bod palmentydd lletach a llai o draffig wedi creu mwy o gyfleoedd i bobl aros a siarad, tra bo eraill yn teimlo eu bod yn lleihau cyfleoedd gan fod llai o bobl leol yn ymweld â'r trefi. Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle hefyd i wneud awgrymiadau i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael, a oedd yn cynnwys parhau â'r ardaloedd mwy o faint i gerddwyr, datblygu'r 'diwylliant caffi' yn y trefi a chelfi stryd newydd a fyddai'n annog deialog ymhlith siaradwyr a dysgwyr Cymraeg fel ei gilydd.

Mae rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

| Sylwadau Enghreifftiol | |
|---|---|
| "Dim ond yn yr ystyr bod y parthau diogel wedi rhoi mwy o le i bobl yn y dref aros a sgwrsio. Rwy'n clywed llawer mwy o'r Gymraeg nawr fy mod i'n gallu clywed y sgwrsio yn hytrach na sŵn traffig." | "Byddwn i'n awgrymu oherwydd ei bod yn ymddangos bod pobl leol yn osgoi'r dref bod llai o gyfleoedd i'w defnyddio. O safbwynt lleol mae'r dref yn llawer prysurach nawr bod y cyfyngiadau wedi cael eu codi." |
| "Mae'n helpu i greu canol trefi bywiog sy'n annog siaradwyr Cymraeg i aros yma ac yn rhoi hyder sy'n annog eraill i ddysgu." | "Mae angen i'r stiwardiaid allu siarad Cymraeg. Dylem ni hefyd geisio cael mwy o fusnesau i ddefnyddio'r adnoddau dwyieithog sydd ar gael gan y Cyngor Sir ynghylch pellter cymdeithasol. Dylid sicrhau nad yw'r arwydd Ffordd Ar Gau yn blocio'r arwydd parthau diogel yn Gymraeg." |
| "Byddai diwylliant caffi / creu ardal i gerddwyr ar y Stryd Fawr yn arwain at fwy o sgwrsio yn yr awyr agored a rhaid bod hynny o fudd i'r Gymraeg." | "Dylai pob busnes fod yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan o Bolisi Cymraeg y sir. Dylai arwyddion gan CSC fod yn barhaol ac yn glir. Cefnogaeth i fusnesau yn ariannol i gael arwyddion dwyieithog oherwydd mae eisoes yn rhan o ddiwylliant a threftadaeth." |
| "Lle mae mwy o le i bobl aros a sgwrsio yn y dref (gan gadw pellter diogel), mae mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. Cyn creu ardal i gerddwyr, nid oedd llawer o le i bobl sefyll a sgwrsio heb rwystro'r ffordd i siopwyr eraill, yn enwedig defnyddwyr cadeiriau olwyn. Ers creu ardaloedd i gerddwyr, gall dau ddefnyddiwr cadair olwyn stopio i sgwrsio heb fod yn y ffordd. Rwy'n ddysgwr Cymraeg ac yn hoffi defnyddio'r iaith pan fydda i allan yn y dref pob cyfle dwi'n ei gael." | "Dylai'r Gymraeg gael blaenoriaeth ar bob arwydd a chyfeiriad. Mwy o bwyslais ar ddysgu iaith mewn ffordd bleserus i bobl ifanc y dref, mae'n rhaid iddynt allu mwynhau canol eu tref heb unrhyw straen, sŵn a llygredd." |
| "Rwy'n credu y dylai creu lle i eistedd gael ei ystyried, mae'n dda er mwyn i bobl allu eistedd a sgwrsio yn y cysgod beth bynnag fo'r iaith, ond yn Aber galla i weld sut y byddai'n fuddiol, gall dysgwyr ymarfer siarad Cymraeg os yw'r amodau'n iawn." | "Alla i ond meddwl bod cyfyngu, mynediad i gymaint o bobl yn lleihau faint o Gymraeg sy'n cael ei siarad yn y dref. Mae cymaint o bobl wedi dweud ar y cyfryngau cymdeithasol bod nhw ddim yn dod i Aberystwyth mwyach ac yn mynd rywle arall." |

## Cw12: A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am barthau diogel yng nghanol trefi?

Cafwyd cyfanswm o 589 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn. Cafwyd amrywiaeth eang o sylwadau, barn ac awgrymiadau. Roedd yr ymatebwyr a deimlai'n gryf yn erbyn creu'r parthau diogel yn fwyaf cryf yn y sylwadau hyn, gan godi pryderon amrywiol ynghylch yr effaith ar ganol trefi, yr economi leol ac ar drigolion lleol. Fodd bynnag, roedd nifer o sylwadau yn cefnogi'r cynllun a'r effaith gadarnhaol y mae'n ei gael ar gadw pellter cymdeithasol, a lleihau tagfeydd traffig a llygredd, ac wrth greu profiad mwy croesawgar i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle hefyd i rannu syniadau ac awgrymiadau eraill ynghylch sut y gellid datblygu'r parthau diogel a chanol trefi yn eu cyfanrwydd yn y dyfodol.

Mae rhai o'r sylwadau a gafwyd i'w gweld yn y tabl isod.


| Sylwadau Enghreifftiol | |
|---|---|
| O blaid y parthau diogel | Yn erbyn y parthau diogel |
| "Syniad da, mae'n dod â mwy o weithgarwch i ganol y dref, a fydd, ymhen amser gobeithio yn annog mwy o fusnesau lleol." | "Dwi ddim yn credu y byddai parthau diogel yn gweithio mewn pentrefi a threfi gwledig oherwydd dydyn nhw ddim wedi cael eu hadeiladu mewn ffordd sy'n darparu ar eu cyfer. Byddai'n cael gwared ar wir hanfod bywyd pentref sy'n rhan o'r atyniad i dwristiaid. Mae'n well cadw'r parthau diogel i'r trefi a dinasoedd mawr a pheidio â cheisio newid y wyddoniaeth wledig !!!!!" |
| "Fel y dywedais, fel rhywun oedd yn ymweld ag Aber, fe wnaeth wella fy mhrofiad o'r dref yn fawr iawn. Treuliais i fwy o amser ac arian yn y dref, ac rwy'n fawr obeithio y bydd y Cyngor yn defnyddio'r treial hwn i gadw agweddau ar y parthau diogel. Cerddais i lawr strydoedd dim ond oherwydd eu bod nhw yn y parth diogel ac roeddwn i'n gwybod y gallai fod mwy o siopau, gan olygu fy mod i hefyd wedi siopa mewn siopau annibynnol llai." | "Es i i Aberaeron i wneud fy siopa wythnosol yn yr haf ond doeddwn i'n methu cwblhau'r dasg honno oherwydd doeddwn i ddim yn gallu mynd yn ddigon agos i'r siopau i gario fy siopa yn ôl i'r car. Dydw i ddim yn anabl ond fyddwn i ddim wedi gallu cario dwy fag o siopa yn ôl i'r maes parcio oherwydd bydden nhw wedi bod yn rhy drwm. O ganlyniad, wnes i ddim gwario unrhyw arian yn Aberaeron, doeddwn i ddim wedi mynd â'm magiau i'r siop elusennol, doeddwn i ddim wedi siarad ag unrhyw un, a gan fy mod i wedi mynd i Dregaron drannoeth lle y galla i siopa'n hawdd, roedd effaith ar yr amgylchedd gan ei fod yn daith ofer yn y car.  Dwi heb ymweld â'r dref ers hynny." |
| "Rwy'n credu ei bod hi'n hen bryd creu'r parthau diogel hyn, ac rwy'n fawr obeithio y byddant yn aros ac yn cael eu gwella ymhellach. Yn draddodiadol, mae'r cynllun a'r lle sy'n cael ei neilltuo yng nghanol ein trefi wedi canolbwyntio ar geir. Yn wyneb newid hinsawdd a'r ffocws polisi newydd ar lesiant pobl, mae'n bryd rhoi pobl a lleoedd naturiol wrth wraidd cynlluniau canol trefi." | "Mae angen llawer mwy o ystyriaeth ac ymgynghori a'r busnesau a'r trigolion sy'n cael eu heffeithio na'r hyn y mae'r Cyngor yn ôl pob golwg, yn barod i'w wneud. Peidiwch â gadael i Covid 19 orfodi pobl i wneud penderfyniadau gwael. Mae Covid yn broblem dros dro." |
| "Fe wnes i fwynhau'n fawr profi'r stryd fawr ac ardaloedd tebyg yn Aberystwyth heb unrhyw geir ar y ffordd, mae wedi bod yn newid cyflymder gwych ac rwy'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus yn mynd i siopa bob dydd – yng nghyd-destun y coronafeirws a hefyd fel roeddwn i'n teimlo'n bersonol. Byddwn i'n dwlu gweld hyn yn parhau hyd yn oed ar ôl y pandemig, a bydd gobeithio yn helpu busnesau lleol sy'n brin o arian i adfywio." | "Dim ond yn ddefnyddiol yn y tymor twristiaeth lle mae cynnydd mawr yn nifer yr ymwelwyr â'r dref yn y dydd. Byddai creu ardaloedd parhaol i gerddwyr yn niweidio canol y dref ac yn gwthio pobl allan i siopa yn y parciau manwerthu lle mae parcio ar gael. Nid yw nifer y myfyrwyr yn effeithio ar nifer y bobl ar y strydoedd sydd angen lle i ynysu oherwydd mae'r mwyafrif ohonynt ar y campws yn ystod y dydd." |

| | |
|---|---|
| "Hoffwn i ganmol y Cyngor am gyflwyno'r mesurau hyn yn ystod y tymor gwyliau prysuraf o ganol Gorffennaf i ganol Medi, gan ei bod yn amlwg y byddai cadw pellter cymdeithasol a diogelwch cerddwyr wedi bod yn anodd iawn yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, ers canol Medi mae wedi bod yn eithaf hawdd i gadw pellter cymdeithasol gydag ychydig bach o ofal ac ystyriaeth. Ond mae cost i gau strydoedd (yn enwedig ar gyfer trigolion anffodus Mwldan a Queen's Terrace) ac ni ddylid gwneud hynny os nad yw'n hollol angenrheidiol." | "Mae angen adolygu'r parcio yn agos i'r harbwr. Er y gallai ei wneud yn rhad ac am ddim helpu trigolion lleol i gael mynediad roedd y faniau gwersylla hyn oedd yn eu camddefnyddio yn golygu bod llawer o bobl leol wedi eu rhwystro rhag eu defnyddio, ac yn ofni mynd i'r ardal honno. Heb fod yn uniongyrchol berthnasol i'r parthau diogel oedd diffyg ystyriaeth nifer o bobl ar eu gwyliau oedd yn gweld Cymru fel rhywle heb unrhyw Covid a heb boeni dim am ddod â'r feirws gyda nhw i'r dref. Dwi ddim yn siŵr sut y byddech chi'n estyn allan iddyn nhw a fyddwn i ddim am weld busnesau lleol yn cael eu hamddifadu o'r fasnach hon, ond rwy'n teimlo y byddai rhyw fath o ymgyrch i'w haddysgu yn benodol ar sut i ymddwyn wedi helpu. Clywais i rhai yn dweud eu bod nhw am ddod i Aberystwyth am nad oedd unrhyw achosion o Covid yma ac felly doedd dim rhaid iddyn nhw boeni am fesurau diogelwch." |
| Awgrymiadau cyffredinol | |
| "Gallai map sy'n dangos pa ffyrdd sydd ar gau a phryd a'u harddangos mewn meysydd parcio a phwyntiau gwybodaeth fod yn ddefnyddiol." | "Mwy o gefnogaeth i feicio – gan gynnwys magu diwylliant o agweddau cadarnhaol at feicio, rhoi trefn ar yr holl systemau un ffordd sy'n gwneud beicio yn anoddach yng nghanol y dref. Helpu iechyd, twristiaeth a newid hinsawdd ...mae pawb ar eu hennill!" |
| "Rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig caniatáu i fusnesau gymryd nwyddau yn gynnar neu'n hwyr iawn yn y dydd fel bod yr ardal i gerddwyr yn ddiogel. Ond rhaid i ni sicrhau hefyd bod lle parcio diogel ar gael i bobl leol y tu hwnt i'r parthau hynny. Efallai y byddai bws cylchol rhad ac am ddim yn ateb, dyw trafnidiaeth gyhoeddus ddim yn wych yma." | "Nid yw un o'r trefi yn fawr a does dim rhaid i bobl gerdded yn bell. Trên neu dractor rhad ac am ddim efallai yn debyg i'r rhai mewn parciau thema yn yr haf. Yn wych i dwristiaid yn enwedig os oes rhaid iddynt gael eu gollwng yng nghanol y dref gan fod y trên nesaf ymhen awr!" |
| "Meddwl llai am barthau diogel a mwy am ffyrdd o ddenu busnesau newydd i'r Stryd Fawr. Bydd y capasiti gan ein trefi i greu ardal i gerddwyr llwyr yn y dyfodol agos oherwydd byddant fel trefi anghyfannedd heb fod angen i unrhyw un fentro dod yma." | "Gyda lle'r parthau diogel mae gennych gyfle i gael cabanau crefftau bach. Eu rhoi i artistiaid lleol am ffi fach yn yr haf." |


# Cwestiynau Monitro Cydraddoldeb

Cafodd cwestiynau demograffig a monitro cydraddoldeb safonol y Cyngor eu gofyn fel rhan o'r arolwg.


**1. Oedran - Beth yw eich grŵp oedran?**





**2. Rhyw - Beth yw eich rhyw?**





**3. Trawsrywiol - Ydy eich rhyw yn awr yr un fath â'r un a ddyrannwyd i chi ar eich genedigaeth?**





**4. Cyfeiriadedd Rhywiol - Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?**





**5. Partneriaeth - Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio eich statws partneriaeth?**




**6. Hunaniaeth Genedlaethol - Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?**





**7. Hil - Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau.**





**8a. Iaith - Beth yw eich dewis iaith?**




**8b Iaith - Ydych chi'n deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**





**9a. Anabledd - A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd**





**9b. Anabledd - Os ydych wedi ateb 'Oes' i gwestiwn 9a, nodwch yr hyn sy'n berthnasol i chi?**



**10. Cyfrifoldebau Gofalu: Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd: Cyflwr iechyd / anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu problemau yn ymwneud â henaint?**




**11. Crefydd neu Gred: Beth yw eich crefydd?**




# Atodiad A: Ymatebion yn ôl y Dref – Aberystwyth (672 ymateb)

### Cw3. Creu parthau diogel

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chreu parthau diogel yng nghanol trefi?**


▼ Canran




### Cw4. Dychwelyd trefi i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylem ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd yng nghanol trefi cyn pandemig y coronfeirws?**


▼ Canran




### Cw5. Parthau diogel pan fydd risg o goronafeirws

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylai parthau diogel canol trefi fod ar waith pan fydd risg o goronfeirws?**


▼ Canran




### Cw6. Cynlluniau hirdymor ar gyfer ein canol trefi

**I ba raddau ydych chi'n credu bod angen cynlluniau hirdymor i adfywio ein canol trefi? Gallai'r rhain gynnwys parthau cerddwyr tymhorol neu barhaol, tirweddu a gwelliannau i'r amgylchedd.**

▼ Canran




# Ymatebion yn ôl y Dref – Aberaeron (155 ymateb)

## Cw3. Creu parthau diogel

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chreu parthau diogel yng nghanol trefi?**


▼ Canran




## Cw4. Dychwelyd trefi i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylem ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd yng nghanol trefi cyn pandemig y coronfeirws?**


▼ Canran




## Cw5. Parthau diogel pan fydd risg o goronafeirws

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylai parthau diogel canol trefi fod ar waith pan fydd risg o goronfeirws?**


▼ Canran




## Cw6. Cynlluniau hirdymor ar gyfer ein canol trefi

**I ba raddau ydych chi'n credu bod angen cynlluniau hirdymor i adfywio ein canol trefi? Gallai'r rhain gynnwys parthau cerddwyr tymhorol neu barhaol, tirweddu a gwelliannau i'r amgylchedd.**

▼ Canran




# Ymatebion yn ôl y Dref – Cei Newydd (96 ymateb)

## Cw3. Creu parthau diogel

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chreu parthau diogel yng nghanol trefi?**


▼ Canran




## Cw4. Dychwelyd trefi i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylem ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd yng nghanol trefi cyn pandemig y coronfeirws?**


▼ Canran




## Cw5. Parthau diogel pan fydd risg o goronafeirws

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylai parthau diogel canol trefi fod ar waith pan fydd risg o goronfeirws?**


▼ Canran




## Cw6. Cynlluniau hirdymor ar gyfer ein canol trefi

**I ba raddau ydych chi'n credu bod angen cynlluniau hirdymor i adfywio ein canol trefi? Gallai'r rhain gynnwys parthau cerddwyr tymhorol neu barhaol, tirweddu a gwelliannau i'r amgylchedd.**

▼ Canran




# Ymateb yn ôl y Dref – Aberteifi (336 ymateb)

## Cw3. Creu parthau diogel

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chreu parthau diogel yng nghanol trefi?**


▼ Canran




## Cw4. Dychwelyd trefi i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylem ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd yng nghanol trefi cyn pandemig y coronfeirws?**


▼ Canran




## Cw5. Parthau diogel pan fydd risg o goronafeirws

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylai parthau diogel canol trefi fod ar waith pan fydd risg o goronfeirws?**


▼ Canran




## Cw6. Cynlluniau hirdymor ar gyfer ein canol trefi

**I ba raddau ydych chi'n credu bod angen cynlluniau hirdymor i adfywio ein canol trefi? Gallai'r rhain gynnwys parthau cerddwyr tymhorol neu barhaol, tirweddu a gwelliannau i'r amgylchedd.**

▼ Canran




# B: Ymatebion yn ôl math o Ymatebydd – Unigolion (989 ymateb)

## Cw3. Creu parthau diogel

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chreu parthau diogel yng nghanol trefi?**


▼ Canran




## Cw4. Dychwelyd trefi i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylem ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd yng nghanol trefi cyn pandemig y coronfeirws?**


▼ Canran




## Cw5. Parthau diogel pan fydd risg o goronafeirws

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylai parthau diogel canol trefi fod ar waith pan fydd risg o goronfeirws?**


▼ Canran




## Cw6. Cynlluniau hirdymor ar gyfer ein canol trefi

**I ba raddau ydych chi'n credu bod angen cynlluniau hirdymor i adfywio ein canol trefi? Gallai'r rhain gynnwys parthau cerddwyr tymhorol neu barhaol, tirweddu a gwelliannau i'r amgylchedd.**

▼ Canran




# Ymatebion yn ôl math o Ymatebydd – Busnesau (107 ymateb)

## Cw3. Creu parthau diogel

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chreu parthau diogel yng nghanol trefi?**


▼ Canran




## Cw4. Dychwelyd trefi i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn y pandemig

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylem ddychwelyd i'r sefyllfa fel ag yr oedd yng nghanol trefi cyn pandemig y coronfeirws?**


▼ Canran




## Cw5. Parthau diogel pan fydd risg o goronafeirws

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylai parthau diogel canol trefi fod ar waith pan fydd risg o goronfeirws?**


▼ Canran




## Cw6. Cynlluniau hirdymor ar gyfer ein canol trefi

**I ba raddau ydych chi'n credu bod angen cynlluniau hirdymor i adfywio ein canol trefi? Gallai'r rhain gynnwys parthau cerddwyr tymhorol neu barhaol, tirweddu a gwelliannau i'r amgylchedd.**

▼ Canran



# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol

Mae'r **Asesiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

| **1. MANYLION Y CYNNIG:** (Polisi / Newid amcan / Arbed arian) | |
|---|---|
| Teitl y cynnig | Parthau Diogel Ceredigion |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Maes gwasanaeth | Yr Economi ac Adfywio<br><br>Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | Pennaeth y Gwasanaeth | Russell Hughes-Pickering a Rhodri Llwyd | Cyfarwyddwr Strategol | Barry Rees |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI | Michael Smith | E-bost | Michael.Smith2@ceredigion.gov.uk | Ffôn | 01545 574101 |

| Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig |
|---|
| Fel rhan o'r broses addasu oherwydd y cloi mawr o ran COVID-19, datblygodd y Cyngor gynlluniau a oedd yn ei gwneud yn haws i ymweld â chanol trefi a masnachu ynddynt mewn ffordd ddiogel. I wneud hyn caewyd y ffyrdd i'r rhan fwyaf o draffig rhwng 11.00am a 6.00pm, ailddiffiniwyd lle i fasnachwyr er mwyn creu cyfleoedd newydd, cafodd palmentydd eu tacluso drwy gael gwared ar ddodrefn stryd (ac eitemau eraill), gofynnwyd i ddefnyddwyr cerbydau barcio y tu allan i ganol y dref a chyflwynwyd arwyddion i helpu ymwelwyr i gynnal pellteroedd diogel yn seiliedig ar y rheol bresennol o fetr.<br><br>Oni chymerid camau:<br><br>• Yn syml, ni fyddai llawer o fusnesau yn hyfyw.<br><br>• Ni fyddai siopwyr ac ymwelwyr â'r trefi yn ddiogel.<br><br>Cyfrannodd nifer o ffactorau at y materion a wynebid: |

- Cynllun hanesyddol strydoedd y trefi
- Strydoedd a phalmentydd cul
- Mae Cefnffyrdd mewn rhai trefi ac mae traffig yn teithio arnynt i gyd
- Mae parcio ar y stryd yn mynd â lle
- Mae'r rhan fwyaf o'r siopau, caffis, bwytai a thafarndai yn fach ac nid oes gofod awyr agored ganddynt
- Y mewnlifiad uchel o ymwelwyr – pobl ar wyliau, yn ymweld am ddiwrnod a myfyrwyr
- Sicrhau hygyrchedd gan gynnwys mynediad i bobl anabl, er enghraifft defnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl â nam ar eu golwg.

Gweithredwyd y mesurau uchod drwy bwerau argyfwng ac felly nid oedd angen ymgynghoriad cyhoeddus nag Asesiad Effaith Integredig ar y pryd. Serch hynny, rhoddwyd Asesiad Effaith Integredig gerbron gyda'r cynnig cychwynnol i ail-agor canol trefi fel y gallem asesu unrhyw effeithiau. Mae'r broses Asesiad Effaith Integredig wedi'i chynllunio fel y gellir ei hadolygu gyda fersiynau gwahanol ar y cyd ag unrhyw newidiadau i ganol trefi sy'n ailagor. Oherwydd natur gyflym ond rheoledig y broses ail-agor, yn anffodus nid oedd yn bosibl cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn y lle cyntaf. Cafwyd rhywfaint o ymgysylltu â Chynghorwyr Sir Lleol wrth i gynlluniau ddod i'r amlwg a chafodd adborth i ddatganiadau i'r wasg ar Facebook ei ystyried. Gwnaethom hefyd ddefnyddio data perthnasol a oedd yn bodoli eisoes yn seiliedig ar ymgynghoriadau blaenorol o fewn fersiwn gyntaf yr Asesiad Effaith Integredig ac arolygon eraill sydd ar gael.

O'r 31ain o Orffennaf hyd y 10fed o Awst, cynhaliodd y Cyngor Sir arolwg ar-lein o'r ymgynghoriad ar ganol y trefi. Cyflawnwyd hyn mewn cyfnod byr o amser er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch ymestyn y parthau diogel drwy orchmynion dros dro. Ymgorfforwyd canfyddiadau'r arolwg yn fersiwn 2 yr Asesiad Effaith Integredig.

Rhwng y 26ain o Hydref a'r 21ain o Ragfyr 2020, ymgysylltodd Cyngor Sir Ceredigion â'r trigolion ynghylch y parthau diogel drwy ail arolwg ar-lein. Roedd yr arolwg hwn yn adeiladu ar yr arolwg cychwynnol a hefyd yn caniatáu ymchwilio i deimladau a barn yn y trefi perthnasol, (Aberystwyth, Aberaeron, Cei Newydd ac Aberteifi). Cynhwyswyd nifer o gwestiynau newydd yn yr arolwg hefyd, er enghraifft a oedd pobl yn cefnogi cynlluniau hirdymor newydd i adfywio canol trefi.

**Y daith hyd yn hyn:**

1. Rhoddwyd parthau diogel ar waith dan bwerau argyfwng i ganolfannau Aberystwyth, Aberaeron, Ceinewydd a thref Aberteifi am gyfnod o dair wythnos o'r 13eg o Orffennaf i'r 2il o Awst 2020.
2. Gweithredwyd cyfnod pellach o dair wythnos ar gyfer parthau diogel dan bwerau argyfwng ar y 3ydd o Awst hyd at y 24ain o Awst.
3. Cynhaliwyd arolwg ar yr ymgynghoriad ar ganol y trefi rhwng 31 Gorffennaf a 10 Awst.
4. Gweithredwyd estyniad o 18 mis pellach ar gyfer y parthau diogel gan ddefnyddio Gorchmynion Traffig Dros Dro. Gellid gweithredu'r parthau diogel neu eu dileu yn ystod y cyfnod o ddeunaw mis er mwyn ymateb i niferoedd yr ymwelwyr neu achosion o'r Coronafeirws.
5. Ataliwyd Parthau Diogel Canol y Trefi yn ystod y cyfyngiadau clo rhwng y Nadolig 2020 a'r 29ain o Fawrth 2021.
6. Gan symud i'r gwanwyn a'r haf 2021, bydd y parthau diogel yn cael eu gweithredu yn unol â'r cyngor, y data a'r anghenion diweddaraf, tra'n ystyried adborth gan bobl Ceredigion.

Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuenctid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw).

Ymwelwyr, busnesau a thrigolion canol trefi.

Bydd y bobl y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn sylweddol iawn. Bydd hyn yn cynnwys pob ymwelydd â chanol tref, boed yn breswylydd yng Ngheredigion, yn fyfyriwr, yn dwrist neu'n ymwelydd arall. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar fusnesau yng nghanol trefi ac ar breswylwyr. Mae'n bosibl y ceir effaith ar grwpiau penodol o bobl, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig, (yn enwedig pobl anabl a phobl oedrannus), a hefyd yr holl ddefnyddwyr ffyrdd a llwybrau troed, gan gynnwys cerddwyr, beicwyr a modurwyr.

O'r arolwg ar yr ymgynghoriad ar ganol y trefi (26/10/20 – 21/12/20), dyma farn y 1,120 o ymatebwyr:

- Mae 54% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â chreu parthau diogel, (mae 40% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf).
- Mae 47% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai canol trefi ddychwelyd fel yr oeddent cyn Covid-19, (mae 45% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf).
- Mae 56% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai parthau diogel fod ar waith pan fo risg o Covid-19, (mae 35% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf).
- Mae 70% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod angen cynlluniau hirdymor newydd i adfywio canol trefi, (mae 20% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf).
- Mae lefelau'r gefnogaeth ar gyfer y parthau diogel yn amrywio yn ôl tref: Aberystwyth – 59.6%, Aberaeron – 51.6%, Cei Newydd – 46.9%, Aberteifi – 41.3% (Mae'r ffigurau'n dangos fod y % yn cytuno/cytuno'n gryf â chreu'r parthau diogel).

- Mae lefelau'r cymorth ar gyfer Parthau Diogel yn amrywio yn ôl y math o ymatebydd: Unigolion – 55.0% a Busnesau – 38.7%, (Mae'r ffigurau'n dangos bod y % yn cytuno/cytuno'n gryf â chreu'r parthau diogel).
- Cefnogaeth i adfer y trefi i'r drefn yr oedd ganddynt cyn creu'r Parthau Diogel: Aberteifi – 62.0%, Cei Newydd – 54.3%, Aberaeron – 48.4%,Aberystwyth – 37.9%, (Mae'r ffigurau'n dangos bod y % yn cytuno/cytuno'n gryf â'r trefi'n dychwelyd i'r ffordd yr oeddent cyn y pandemig).

**RHEOLI'R DDOGFEN:** Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb, lle bynnag y bo modd.

| Awdur | Cam yn y broses benderfynu | Rhif y fersiwn | Dyddiad trafod | Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod |
|---|---|---|---|---|
| Michael Smith | Gweithredu drwy bwerau brys y Grŵp Rheoli Aur | 1 | 10/7/20 | *Bydd hyn yn dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy ym mhob cam o'r broses o ddatblygu'r cynnig. Ydych chi wedi ystyried yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r nodau llesiant, a'u rhoi ar waith?* |
| Michael Smith | Gweithredu ardaloedd diogel yn cael ei ymestyn ar y 25ain o Awst drwy bwerau brys y Grŵp Rheoli Aur | 2 | 13/8/20 | |
| Michael Smith | Ar gyfer unrhyw ystyriaethau yn y dyfodol | 3 | Diwedd Mawrth 2021 | Ystyried tystiolaeth o Adroddiad Arolwg Adborth Parthau Diogel Canol Trefi Aberystwyth, Aberaeron, Cei Newydd ac Aberteifi. |
| | | | | |



| **AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR**: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut? | |
|---|---|
| Hybu'r Economi | Mae ail-agor busnesau canol trefi yn dilyn y clo mawr yn sgil COVID-19 yn hanfodol ar gyfer yr economi leol a hefyd er sicrhau bod busnesau unigol yn goroesi.<br><br>Mae'r cynigion yn ystyried mynediad diogel at fusnes ac yn caniatáu ymbellhau cymdeithasol drwy gyfres o fesurau gan gynnwys cau ffyrdd, tacluso palmentydd drwy gael gwared ar ddodrefn stryd ac eitemau |

| | |
|---|---|
| | eraill, parcio y tu allan i ganol trefi a chyflwyno arwyddion ymbellhau cymdeithasol. Gall gwella ansawdd y profiad o ymweld â chanol tref fod yn hwb i fusnesau.<br><br>Ceir cyfle hefyd i werthuso'r broses o weithredu'r cynnig, er mwyn datgelu gwybodaeth at ddibenion unrhyw gynlluniau tymor canolig a thymor hir o ran newidiadau i ganol ein trefi a sut y gallai hyn roi hwb i'r economi.<br><br>O'r Arolwg ar yr Adborth ynghylch Parthau Diogel Canol y Trefi (Gaeaf 2020), gellir gweld bod lefelau'r gefnogaeth i'r Parthau Diogel yn amrywio rhwng unigolion a busnesau: Unigolion – 55.0% a Busnesau – 38.7%, (Mae'r ffigurau'n dangos fod y % yn cytuno/cytuno'n gryf â chreu'r parthau diogel). |
| Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl | Diogelu mynediad i ganol trefi a'u cynaliadwyedd ynghyd â chyfleoedd i bawb yn y dyfodol. |
| Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd | Mesurau i sicrhau y bydd ymbellhau cymdeithasol yn helpu gyda chydnerthedd y gymuned i COVID-19.<br><br>Mae'r cynigion yn helpu i hwyluso symudiad cerddwyr, defnyddwyr cadeiriau olwyn a beicwyr o amgylch canol trefi. Bydd cau ffyrdd i draffig a thacluso palmentydd drwy gael gwared ar ddodrefn stryd ac eitemau eraill yn hwyluso mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl â nam ar eu golwg.<br><br>O'r arolwg ar yr ymgynghoriad ar ganol y trefi, mae 52% yn credu bod yr effaith ar bobl anabl, deiliaid bathodynnau glas a'r henoed yn wael neu'n wael iawn (dywedodd 9% eu bod yn dda neu'n dda iawn). Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon yn ymwneud â mynediad cyffredinol i'r anabl, argaeledd lleoedd parcio ar gyfer deiliaid bathodynnau glas a dryswch ynghylch y parthau diogel ymysg yr henoed. |
| Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol | Bydd lleihau'r traffig o ran y cerbydau yng nghanol trefi yn gwella ansawdd yr aer a diogelwch cerddwyr, defnyddwyr cadeiriau olwyn a beicwyr. Bydd y mesurau hefyd yn helpu pobl i gadw pellter cymdeithasol a chynyddu'r cydnerthedd cymunedol i COVID-19.<br><br>O'r arolwg ar yr ymgynghoriad ar ganol y trefi (Haf 2020), mae 46% yn credu eu bod yn cael effaith dda neu dda iawn ar yr amgylchedd, (dywedodd 15% eu bod yn wael neu'n wael iawn).<br><br>Mae 51% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y parthau diogel yn galluogi pobl i ymweld â threfi yn ddiogel, (mae 35% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf). |

**SYLWCH:** Wrth i chi lenwi’r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu’ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a’r astudiaethau sydd wedi llywio’ch ffordd o feddwl, a’r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi’r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy’n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy’n darparu tystiolaeth o argraffiadau pobl o’r gwasanaeth/polisi a’u barn amdano e.e dadansoddiad o gŵynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau’r cyfrifiad (Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o’r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgyngoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*
- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu’r sectorau gwirfoddol a chymunedol (gan gynnwys y ddogfen* ***A Yw Cymru’n Decach?)***
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

**2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY:** Ym mha ffordd mae’r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y’u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi’u hymgorffori a’u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?

| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | Ydy’r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni’r egwyddor hon? Os yw’n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw’n gwneud hynny, eglurwch pam. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu’r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu’n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a’r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol | Bydd yr angen i ail-agor canol ein trefi yn y tymor byr yn cael ei weithredu drwy bwerau argyfwng. Mae cwrdd â'r angen tymor byr i ailagor canol ein trefi yn cynnwys mesurau megis cau ffyrdd, tacluso palmentydd drwy gael gwared ar ddodrefn stryd ac eitemau eraill, parcio y tu allan i ganol trefi, a chyflwyno arwyddion ymbellhau cymdeithasol. Bydd hyn yn newid radical ac yn cynnig cyfle arwyddocaol i asesu ac ymgynghori ar y newidiadau tymor byr hyn, gyda'r bwriad o addasu canol ein trefi i gynnig profiad o ansawdd ac sy’n gynaliadwy yn amgylcheddol i ymwelwyr, | Casglwyd tystiolaeth gennym yn ystod y cyfnod ailagor tymor byr gan gynnwys o’r Arolwg ar yr Ymgynghoriad ar Ganol y Trefi (haf 2020), ac yna'n ddiweddarach o’r Arolwg ar yr Adborth ynghylch Parthau Diogel Canol y Trefi (Gaeaf 2020).<br><br>O’r Arolwg ar yr Adborth ynghylch Parthau Diogel Canol y Trefi (Gaeaf 2020), mae 54% yn cytuno neu'n | Bydd effeithiau negyddol yn cael eu nodi yn ystod y tymor byr ac yn cael sylw os yn bosibl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyda busnesau bywiog a llwyddiannus ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir. | cytuno'n gryf â chreu parthau diogel,(mae 40% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf).<br><br>O'r Arolwg ar yr Adborth ynghylch Parthau Diogel Canol y Trefi (Gaeaf 2020), gellir gweld bod lefelau'r gefnogaeth i'r Parthau Diogel yn amrywio rhwng unigolion a busnesau: Unigolion – 55.0% a Busnesau – 38.7%, (Mae'r ffigurau'n dangos bod y % yn cytuno/cytuno'n gryf â chreu'r parthau diogel). | |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a'r gwasanaethau brys. Bydd Gorfodaeth Sifil ar waith trwy Wasanaethau Parcio Cyngor Sir Ceredigion a Gorfodaeth o ran yr Heddlu yn symud troseddau yn ymwneud â thraffig (gan gynnwys rhwystrau etc.).<br><br>Gweithio gyda'r heddlu o ran deddfwriaeth yn ymwneud â thrwyddedu. | Tystiolaeth wrth ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Gwasanaeth Cyngor Sir Cynllunio a Darparu – gan gynnwys swyddogaethau Gwasanaethau Parcio, Cynllunio, datblygu economaidd a thrwyddedu. | Monitro effaith y newidiadau hyn yn barhaus.<br><br>Gorfodaeth Parcio Sifil a gorfodaeth gan yr Heddlu.<br><br>Gorfodaeth trwy ddeddfwriaeth drwyddedu er mwyn rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais sy'n cael ei danio gan alcohol ac ati. |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn | Oherwydd y flaenoriaeth uchel a'r angen brys i ail-agor canol trefi, gweithredwyd pwerau brys. Yn anffodus nid oedd yn bosibl o fewn y ffrâm amser i gynnal ymgynghoriad llawn nac ymarfer ymgysylltu gyda'r broses gychwynnol o weithredu pwerau argyfwng. | Cynhelir ymgynghoriad â chynlluniau canol trefi yn y dyfodol y tu hwnt i'r cyfnod o bwerau argyfwng. | Bydd ymgynghoriad llawn â rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn cyfrannu at gynigion ar gyfer cynlluniau hirdymor canol trefi a pharthau diogel. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Serch hynny, yn y cyfnod ffurfiannol, cysylltwyd â'r cynghorau tref a'r aelodau etholedig am adborth. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i wybodaeth bresennol o waith ymgysylltu neu ymgynghoriadau blaenorol ac adborth i ddatganiadau i'r wasg ar gyfryngau cymdeithasol, wrth lunio'r cynnig cychwynnol.<br><br>Cynhaliwyd arolwg ar yr ymgynghoriad ar ganol y trefi (31/7/20 – 10/8/20). Defnyddiwyd adroddiad yr arolwg fel tystiolaeth yn ystod y broses gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y cynnig i gael parthau diogel am 18 mis o dan bwerau brys.<br><br>Cynhaliwyd Arolwg ar yr Adborth ynghylch Parthau Diogel Canol Trefi Aberystwyth, Aberaeron, Cei Newydd ac Aberteifi rhwng 26/10/20 a 21/12/20. Defnyddiwyd y canlyniadau i ddiweddaru trydedd fersiwn yr Asesiad Effaith Integredig hwn. | | |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu | Bydd y mesurau yn sicrhau bod ymbellhau cymdeithasol yn cyfrannu at leihau neu atal trosglwyddo COVID-19 yn y gymuned.<br><br>Bydd y gwaith o ail-agor canol trefi mewn modd sydd wedi'i reoli yn galluogi busnesau i ailagor ac yn cyfrannu at hyfywedd a pharhad y busnesau gan eu hatal rhag cau ac felly cael effeithiau negyddol ar yr economi leol. | Canllawiau cenedlaethol a chyngor ar ddiogelwch o ran ymbellhau cymdeithasol gan gynnwys y Rheol 2 fetr bresennol.<br><br>Nodir effeithiau COVID-19 ar yr economi yn 'Effaith Economaidd y Coronafeirws (COVID-19) yng Ngheredigion' Cyngor Sir Ceredigion. | Monitro effaith y newidiadau hyn yn barhaus. Bydd gwaith monitro parhaus yn helpu i nodi ac ymateb i unrhyw effeithiau negyddol wrth iddynt godi.<br><br>Gorfodaeth Parcio Sifil<br>Gorfodaeth gan yr Heddlu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd cau ffyrdd i draffig yn helpu i atal damweiniau traffig ar y ffyrdd ac yn sicrhau mwy o ddiogelwch i gerddwyr, defnyddwyr cadair olwyn a beicwyr. | *Re-allocating Road Space to Make Walking and Cycling Safer – support for Local Authorities during Covid-19 and beyond'* Sustrans. | |
| **Integreiddio** Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill | Ar hyn o bryd, ceir trafodaeth o safbwynt y polisi ehangach ar y rhyngddibyniaethau rhwng yr amgylchedd, yr economi a'r pandemig. Gallai ailagor canol trefi fod yn rhan o gyfres o strategaethau i hyrwyddo Ceredigion sy'n wyrdd, yn economaidd weithgar ac yn wydn. | Bydd ymgynghori'n digwydd o ran cynlluniau canol trefi yn y dyfodol y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng ac felly bydd tystiolaeth ar gael. Bydd hyn yn cynnwys integreiddio â strategaethau economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. | Casglu tystiolaeth o ymgynghoriadau yn y dyfodol a chyfeirio at strategaethau perthnasol eraill. |

| **3. NODAU LLESIANT:** Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall. | | | |
|---|---|---|---|
| Nod llesiant | Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
| **3.1. Cymru lewyrchus** Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi | Bydd y cynnig i ail-agor canol trefi yn helpu busnesau yng nghanol y trefi i ail-agor. Bydd hyn o fudd uniongyrchol i'r economi leol a bydd yn cyfrannu at ffyniant.<br><br>Caiff deunyddiau eu cyrchu a'u gosod gan ddefnyddio contractwyr lleol, gan helpu i ddiogelu swyddi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. | Tystiolaeth o brosiectau gwella canol trefi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.<br><br>O'r Arolwg ar yr Adborth ynghylch Parthau Diogel Canol y Trefi (Gaeaf 2020), gellir gweld bod lefelau'r gefnogaeth i'r Parthau Diogel yn amrywio rhwng unigolion a busnesau: Unigolion – | Monitro effaith newidiadau yn barhaus er mwyn nodi unrhyw effeithiau negyddol wrth iddynt godi.<br><br>Mae'r swyddogion priffyrdd, trwyddedu a datblygu economaidd yn gweithio gyda busnesau lleol i alluogi masnachu yn yr awyr agored lle y bo'n briodol, a byddant yn parhau i weithio gyda busnesau lle y gallant. |

Tudalen 57

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 55.0% a Busnesau – 38.7%, (Mae'r ffigurau'n dangos bod y % yn cytuno/cytuno'n gryf â chreu'r parthau diogel).<br><br>Cyfeiriodd ymatebwyr yr arolwg at yr awyrgylch bywiog a grëwyd drwy ganiatáu i gaffis a busnesau fasnachu y tu allan.<br><br>Dywedodd pobl wrthym hefyd eu bod yn credu bod y parthau diogel yn niweidiol i'r economi, bod angen asesu effeithiau ar fusnesau cyn gweithredu parthau diogel a bod parthau diogel yn peri i bobl deithio i rywle arall ar gyfer siopau a chyfleusterau oherwydd problemau mynediad. | Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu adloniant yn y canolfannau hefyd. Yn ogystal â hyn, mae swyddogion yn gweithio gyda sefydliadau lleol, megis Aberystwyth ar y Blaen ac aelodau'r cyngor lleol i nodi mesurau eraill sy'n gwella atyniad y dref.<br><br>Mae gwybodaeth a chyngor ar gael i fusnesau sydd angen cymorth ar hyn o bryd drwy'r timau economaidd a thrwy'r we. |
| **3.2. Cymru gydnerth**<br>Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd) | Bydd cau canol trefi i draffig yn cyfrannu at leihau allyriadau o fewn amgylchedd canol trefi ac yn arwain at aer glanach. Byddai pobl leol, lle y bo'n bosibl, yn cael eu hannog i gerdded neu feicio i ganol trefi yn hytrach na gyrru.<br><br>Ceir trafodaeth o safbwynt y polisi ehangach ar y rhyngddibyniaethau rhwng yr amgylchedd, yr economi a'r pandemig. Gallai ailagor canol trefi fod yn rhan o gyfres o strategaethau i hyrwyddo Ceredigion sy'n wyrdd, yn economaidd weithgar ac yn wydn. | Tystiolaeth o gynlluniau lleihau traffig canol trefi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.<br><br>O'r Arolwg ar yr Ymgynghoriad ar Ganol y Trefi (Haf 2020), mae 46% yn credu bod yr effaith ar yr amgylchedd yn dda neu'n dda iawn, (dywedodd 15% eu bod yn meddwl bod yr | Monitro effaith newidiadau yn barhaus er mwyn nodi unrhyw effeithiau negyddol wrth iddynt godi.<br><br>Sicrhau bod y cynnig i ailagor canol trefi yn integreiddio i'r tirlun polisi newydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | effaith yn ddrwg neu'n ddrwg iawn).<br><br>Tynnodd llawer o bobl sylw at yr effeithiau cadarnhaol o gael llai o geir yn y trefi, yn enwedig llai o lygredd aer a sŵn. Fodd bynnag, roedd nifer cyfartal o bryderon bod cynnydd mewn biniau sbwriel a gorlifo yn sgil-gynnyrch y parthau diogel oherwydd cynnydd mewn ymwelwyr ac ailagor y diwydiant twristiaeth.<br><br>Datblygu polisïau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. | Lle mae problemau wedi'u nodi, mae'r Cyngor wedi cyflwyno biniau / sgipiau mawr sy'n cael eu gwagio'n rheolaidd. Mewn ardaloedd sy'n dangos problemau mae'r Cyngor yn codi mwy o arwyddion i annog ymwelwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu sbwriel a mynd ag ef adref gyda nhw. |
| **3.3. Cymru iachach**<br>Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd | Mae'r cynnig yn nodi mesurau i ganiatáu pellhau cymdeithasol yn seiliedig ar y rheol 2 fetr er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws i'r gymuned yng nghanol trefi.<br><br>Bydd ailagor canol trefi hefyd yn helpu o ran iechyd meddwl ac ansawdd bywyd pobl oherwydd yr agweddau cymdeithasol i weithgareddau a phrofiadau yng nghanol trefi. | Canllawiau a chyngor meddygol gan y Llywodraeth a Sefydliad Iechyd y Byd ar ymbellhau cymdeithasol i atal y Coronafeirws.<br><br>O'r Arolwg ar yr Adborth ynghylch Parthau Diogel Canol y Trefi (Gaeaf 2020), mae 56% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai'r parthau diogel fod ar waith pan fo risg o Covid-19, (mae 35% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf). | Caiff cyfraddau trosglwyddo'r Coronafeirws yn y gymuned leol eu monitro a chaiff cyfyngiadau eu hailgyflwyno neu eu lleddfu yn unol â hynny.<br><br>Gosodwyd arwyddion ymbellhau cymdeithasol yn y parthau diogel. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | I gefnogi'r parthau diogel, roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar y ffordd yr oeddent yn caniatáu i bobl gynnal pellter cymdeithasol ac felly'n teimlo'n fwy diogel wrth ymweld â chanol y dref, ac aeth rhai mor bell â dweud y dylent fod yn nodwedd barhaol.<br><br>Roedd rhai o'r farn nad oes angen cadw'r parthau diogel wrth gyflwyno'r brechlyn dros y misoedd nesaf. | |
| **3.4. Cymru o gymunedau cydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | Mae cydlyniant cymunedol yn ymwneud ag adeiladu cyfalaf cymdeithasol drwy gynyddu cysylltiadau cymdeithasol rhwng pobl. Bydd ailagor canol trefi fel mannau diogel ac amgylcheddau o ansawdd i bobl ymweld â hwy yn cael effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol. | Damcaniaeth cydlyniant cymunedol – er enghraifft y cysyniad o fywydau cyfochrog gan Ted Cantle.<br><br>Dangosyddion cydlyniant cymunedol Arolwg Cenedlaethol Cymru.<br><br>Gwybodaeth gan dîm cydlyniant cymunedol Canolbarth a Gorllewin Cymru<br><br>O'r Arolwg ar yr Ymgynghoriad ar Ganol y Trefi (Haf 2020), mae 52% yn credu bod y parthau diogel yn cael effaith dda neu dda iawn ar yr | Monitro unrhyw effeithiau negyddol megis ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau casineb a mynd i'r afael â nhw drwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | amgylchedd mewn trefi, (dywedodd 27% eu bod yn meddwl bod yr effaith yn ddrwg neu'n ddrwg iawn).<br><br>Y sylwadau ysgrifenedig yn yr arolwg a oedd yn cefnogi'r farn hon oedd bod y parthau diogel wedi creu awyrgylch mwy hamddenol, croesawgar a 'chyfandirol' yn y trefi a bod pobl yn mwynhau hyn. Tynnwyd sylw hefyd at y diffyg ceir sy'n llygru'r awyr a'r diogelwch y gallen nhw ei gael i bori yn y siopau. Fodd bynnag, roedd 27% hefyd o'r farn bod yr effaith wedi bod yn wael. Y prif faterion a godwyd oedd bod pobl leol yn teimlo'n llai diogel oherwydd y mewnlifiad mawr o dwristiaid ac ymwelwyr i'r ardal nad ydynt, yn ôl y sôn, yn cadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol, ac mae teimlad bod y parthau diogel yn cael eu creu er budd twristiaeth yn hytrach na phobl leol. | |
| **3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant | Mae gan y cynnig y potensial i leihau cynhyrchu CO2 ac effeithiau amgylcheddol negyddol trafnidiaeth a theithio - gan gynnwys allyriadau nitrogen ocsid, carbon monocsid a hydrocarbonau drwy annog pobl leol i gerdded neu feicio i ganol trefi. | Tystiolaeth o fonitro llygredd aer. | Monitro effaith newidiadau yn barhaus er mwyn nodi unrhyw effeithiau negyddol wrth iddynt godi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol | Drwy gymryd camau i amddiffyn trigolion ac ymwelwyr â Cheredigion rhag y Coronafeirws, gallwn chwarae rhan mewn mynd i'r afael ag achosion o'r feirws yn fyd-eang.<br><br>Mae'n bosibl hefyd y bydd y cynigion yn mynd law yn llaw â phrosiectau cyfrifol byd-eang arall, er enghraifft trefi masnach deg. | Monitro Cyfradd R Covid-19.<br><br>Croesgyfeirio at brosiectau eraill, er enghraifft trefi masnach deg. | Ailgyflwyno neu lacio cyfyngiadau yn unol â hynny. |

| **3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau<br><br>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.<br><br>*Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.*<br><br>***Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd:***<br>Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.<br><br>*Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchodedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.* | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?<br><br>Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio data nac yn ymgysylltu os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r blwch **cynnwys** yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol. | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?<br><br>Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn. |
|---|---|---|---|
| **Oedran** | | | |

<table>
<tr><td colspan="4">Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓)</td><td rowspan="7">Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol pobl o bob oed drwy gyflwyno mesurau ymbellhau cymdeithasol a mwy o ddiogelwch wrth leihau'r traffig o ran cerbydau. Bydd gan y cynnig hefyd effaith gadarnhaol eang ar les emosiynol, gyda phobl yn gallu dychwelyd yn ddiogel i ganol trefi at ddibenion manwerthu a hamdden.<br><br>Mae'n bosibl y bydd pobl iau yn cael mwy o fudd o les emosiynol a diogelwch ar y ffyrdd.<br><br>Bydd pobl hŷn yn cael mwy o fudd o fesurau ymbellhau cymdeithasol/diogelu rhag feirysau oherwydd eu bod yn gymharol fwy agored i niwed. Mae'n bosibl hefyd y ceir manteision cynyddol o ddiogelwch ar y ffyrdd a mynd i'r afael ag unigedd/lles emosiynol. I rai pobl hŷn, effaith negyddol fyddai'r angen i gerdded ymhellach.<br><br>I rai pobl hŷn, mae'r parthau diogel yn golygu bod yn rhaid iddynt gerdded ymhellach ac y mae hyn yn effaith negyddol.</td><td rowspan="7">Canllawiau a chyngor meddygol gan y Llywodraeth a Sefydliad Iechyd y Byd ar ymbellhau cymdeithasol i atal y Coronafeirws.<br><br>Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) ar ddiogelwch ar y ffyrdd.<br><br>Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar effeithiau emosiynol pandemig y Coronafeirws.<br><br>Mae gan Geredigion un o'r cyfrannau uchaf o bobl hŷn yng Nghymru. Mae mwyafrif y marwolaethau sy'n cynnwys COVID-19 wedi bod ymhlith pobl 65 oed a throsodd, (24,009 allan o 27,356), gyda 43% (10,410) o'r rhain yn digwydd yn y grŵp oedran dros-85, ( Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hyd at y 24/4/20).<br><br>O'r arolwg yr ymgynghoriad ar ganol y trefi (Haf 2020), mae 52% yn credu bod yr effaith ar bobl anabl, deiliaid bathodynnau glas a'r henoed yn wael neu'n wael iawn (dywedodd 9% eu bod yn dda neu'n dda iawn). Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon yn ymwneud â mynediad cyffredinol i'r anabl, argaeledd</td><td rowspan="7">Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno o dan bwerau argyfwng. Bwriedir monitro'r cynnig ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried, ynghyd ag ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2020, ar gyfer unrhyw newidiadau tymor canolig i'r tymor hir y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng.<br><br>Symudwyd yr amser y bydd y parthau diogel yn cychwyn o 10.00am i 11.00am er mwyn helpu i roi mwy o gyfle i bobl yrru i ganol trefi os bydd angen.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Pobl 18-50</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Pobl hŷn 50+</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td>✓</td><td></td></tr>
</table>

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | lleoedd parcio ar gyfer deiliaid bathodynnau glas a dryswch ynghylch y parthau diogel ymysg yr henoed.<br><br>Yn yr Arolwg ar yr Adborth ynghylch Parthau Diogel Canol y Trefi (Gaeaf 2020), gofynnwyd cwestiwn i bobl ynghylch pa welliannau y gellid eu gwneud i'r parthau diogel ar gyfer pobl anabl, deiliaid Bathodyn Glas a'r henoed.<br>Dywedodd pobl wrthym fod angen darparu parcio ychwanegol ar gyfer Bathodynnau Glas a chaniatáu mwy o fynediad i ganol y trefi. | Mae lleoedd parcio ar gyfer Bathodynnau Glas wedi'u dynodi o fewn y parthau diogel. Mae lleoedd parcio ychwanegol ar gyfer Bathodynnau Glas wedi'u creu ac rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa. |



| **Anabledd**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nam ar y clyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ag anableddau drwy gyflwyno mesurau ymbellhau cymdeithasol a mwy o ddiogelwch yn sgil lleihau'r traffig gan gerbydau. Bydd y cynnig hefyd yn cael effaith gadarnhaol eang ar iechyd meddwl gyda phobl yn gallu dychwelyd yn ddiogel i ganol trefi at ddibenion manwerthu a hamdden. | Canllawiau a chyngor meddygol gan y Llywodraeth a Sefydliad Iechyd y Byd ar ymbellhau cymdeithasol i atal y Coronafeirws.<br><br>Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau ar ddiogelwch ar y ffyrdd. | Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno o dan bwerau argyfwng. Bwriedir monitro'r cynnig ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried, ynghyd ag ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2020, ar gyfer unrhyw newidiadau tymor canolig i'r tymor hir y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng. |
| | ✓ | | | | | |
| Nam corfforol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | ✓ | | | | |
| Nam ar y golwg | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | ✓ | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anabledd dysgu | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Bydd defnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl sydd â nam clyw, nam corfforol a nam gweledol i gyd yn elwa o leihau’r traffig o ran cerbydau ac o dacluso a chael gwared ar ddodrefn stryd. | Dangosodd yr ymgyrch i dacluso Ceredigion fod strydlun gyda llai o ddodrefn stryd ac eitemau eraill yn gwella’r hygyrchedd. | Bydd archwiliad o ran hygyrchedd yn helpu i nodi rhwystrau o ran mynediad a mynd i'r afael â hwy. Fel rhan o'r cynlluniau hyd yn hyn rydym wedi ychwanegu rampiau i wella mynediad a byddwn yn parhau i edrych ar sut y gellir gwella mynediad. |
| | ✓ | ✓ | | | | |
| Salwch hirdymor | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | ✓ | | | | |
| Iechyd meddwl | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Arall | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | I rai pobl anabl, gallai pellteroedd cerdded hwy wrth ymweld â chanol trefi gael effaith negyddol.<br><br>Rhwystr posibl yw hygyrchedd gwybodaeth ac arwyddion hawdd eu deall ynghylch canol trefi. | Yn yr Arolwg ar yr Adborth ynghylch Parthau Diogel Canol y Trefi (Gaeaf 2020), gofynnwyd cwestiwn i bobl ynghylch pa welliannau y gellid eu gwneud i’r parthau diogel ar gyfer pobl anabl, deiliaid Bathodyn Glas a'r henoed.<br><br>Dywedodd pobl wrthym fod angen darparu parcio ychwanegol ar gyfer Bathodynnau Glas a chaniatáu mwy o fynediad i ganol y trefi.<br><br>Mae pobl wedi dweud wrthym y byddai map syml gyda thirnodau yn haws ei ddeall. Mae pobl hefyd wedi gofyn am wybodaeth ar ffurf hawdd ei darllen a fformatau hygyrch eraill, gan gynnwys sain. Mae pobl ag anableddau dysgu wedi | Mae lleoedd parcio ar gyfer Bathodyn Glas wedi'u dynodi yn y parthau diogel. Crëwyd lleoedd parcio ychwanegol ar gyfer y Bathodyn Glas ac rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa.<br><br>Symudwyd yr amser y bydd y parthau diogel yn cychwyn o 10.00am i 11.00am er mwyn helpu i roi mwy o gyfle i bobl yrru i ganol trefi os bydd angen. Fodd bynnag, mae rhai pobl wedi dweud wrthym fod angen iddynt gymryd meddyginiaeth yn y bore ac nad ydynt yn gallu mynd allan tan yn ddiweddarach yn y dydd.<br><br>Yr ydym yn ystyried cynhyrchu mapiau symlach. Cynhyrchwyd fersiwn hawdd ei darllen o’r arolwg ar yr ymgynghoriad ar ganol y trefi. Mae fformatau hygyrch eraill ar gael drwy ofyn amdanynt. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | dweud wrthym nad ydynt yn hoffi newidiadau yn eu harferion.<br><br>Cododd Fforwm Anabledd Ceredigion y pwynt nad yw pawb sydd ag anghenion mynediad yn Deiliaid Bathodyn Glas ac efallai nad ydynt yn gymwys i gael Bathodyn Glas. Mae hyn yn creu problemau o ran cael mynediad i'r parthau diogel. | Byddwn yn parhau i geisio gwella mynediad i Ddeiliaid Bathodynnau Glas a Deiliaid Bathodynnau nad ydynt yn rhai glas. |

| **Trawsrywiol**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓) | | | | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol pawb gan gynnwys nodweddion gwarchodedig trawsrywiol drwy gyflwyno mesurau ymbellhau cymdeithasol a mwy o ddiogelwch yn sgil lleihau'r traffig gan gerbydau. Bydd gan y cynnig hefyd effaith gadarnhaol eang ar les emosiynol, gyda phobl yn gallu dychwelyd yn ddiogel i ganol trefi at ddibenion manwerthu a hamdden. | Canllawiau a chyngor meddygol gan y Llywodraeth a Sefydliad Iechyd y Byd ar ymbellhau cymdeithasol i atal y Coronafeirws.<br><br>Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau ar ddiogelwch ar y ffyrdd.<br><br>Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar effeithiau emosiynol pandemig y Coronafeirws. | Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno o dan bwerau argyfwng. Bwriedir monitro'r cynnig ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried, ynghyd ag ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2020, ar gyfer unrhyw newidiadau tymor canolig i'r tymor hir y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priodas neu bartneriaeth sifil**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓) | | | | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol pawb drwy gyflwyno mesurau ymbellhau cymdeithasol a mwy o ddiogelwch yn sgil lleihau'r traffig gan gerbydau. Bydd gan y cynnig hefyd effaith gadarnhaol eang ar les emosiynol, gyda phobl yn gallu dychwelyd yn ddiogel i ganol trefi at ddibenion manwerthu a hamdden. | Canllawiau a chyngor meddygol gan y Llywodraeth a Sefydliad Iechyd y Byd ar ymbellhau cymdeithasol i atal y Coronafeirws.<br><br>Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau ar ddiogelwch ar y ffyrdd.<br><br>Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar effeithiau emosiynol pandemig y Coronafeirws. | Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno o dan bwerau argyfwng. Bwriedir monitro'r cynnig ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried, ynghyd ag ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2020, ar gyfer unrhyw newidiadau tymor canolig i'r tymor hir y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng. |
| Priodas | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Partneriaeth sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

<table>
<tr><td colspan="4">Beichiogrwydd neu famolaeth<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)</td><td rowspan="5">Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol pawb gan gynnwys y rhai sy’n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth drwy gyflwyno mesurau ymbellhau cymdeithasol a mwy o ddiogelwch yn sgil lleihau’r traffig gan gerbydau. Bydd y rhai sy'n feichiog neu'n rhieni newydd hefyd yn elwa o dacluso a chael gwared ar ddodrefn stryd ac eitemau eraill a chanol trefi mwy diogel.<br><br>Bydd gan y cynnig hefyd effaith gadarnhaol eang posib ar les emosiynol, gyda phobl yn gallu dychwelyd yn ddiogel i ganol trefi at ddibenion manwerthu a hamdden.<br><br>I rai sy’n feichiog, gallai pellteroedd cerdded hwy wrth ymweld â chanol trefi gael effaith negyddol.</td><td rowspan="5">Canllawiau a chyngor meddygol gan y Llywodraeth a Sefydliad Iechyd y Byd ar ymbellhau cymdeithasol i atal y Coronafeirws.<br><br>Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau ar ddiogelwch ar y ffyrdd.<br><br>Data’r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar effeithiau emosiynol pandemig y Coronafeirws.</td><td rowspan="5">Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno o dan bwerau argyfwng. Bwriedir monitro'r cynnig ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried, ynghyd ag ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2020, ar gyfer unrhyw newidiadau tymor canolig i’r tymor hir y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Beichiogrwydd</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td>✓</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Mamolaeth</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td>✓</td><td></td></tr>
</table>

| **Hil**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? ( Ticiwch ✓) | | | | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol pobl o bob hil drwy gyflwyno mesurau ymbellhau cymdeithasol. Bydd hiliau â pherygl cymharol uwch i’r Coronafeirws yn cael budd cynyddol o fesurau ymbellhau cymdeithasol, gan gynnwys pobl dduon, pobl Asiaidd a phobl o leiafrifoedd ethnig | Canllawiau a chyngor meddygol gan y Llywodraeth a Sefydliad Iechyd y Byd ar ymbellhau cymdeithasol i atal y Coronafeirws.<br><br>Mae pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn gymharol fwy agored i feirws COVID-19. Wrth ystyried oedran yn y dadansoddi, mae gwrywod DU yn 4.2 gwaith yn fwy tebygol o farw oherwydd COVID-19 ac mae benywod duon 4.3 gwaith yn fwy tebygol o farw oherwydd COVID-19 na dynion a menywod o ethnigrwydd gwyn. Roedd gan bobl o ethnigrwydd Bangladeshaidd a Phacistanaidd, Indiaidd a chymysg hefyd risg sylweddol o farw oherwydd COVID-19 o gymharu â'r rheini o ethnigrwydd gwyn. (Marwolaethau yn gysylltiedig â’r Coronafeirws (COVID-19) yn ôl grŵp ethnig yng Nghymru a Lloegr: 2 Mawrth 2020 i 10 Ebrill 2020, Swyddfa Ystadegau Gwladol).<br><br>Mae pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig hefyd yn fwy tebygol o weithio mewn meysydd cyflogaeth â risg, (naill ai risg o ran sicrwydd swyddi neu risg o haint y Coronafeirws), | Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno o dan bwerau argyfwng. Bwriedir monitro'r cynnig ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried, ynghyd ag ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2020, ar gyfer unrhyw newidiadau tymor canolig i’r tymor hir y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Grwpiau ethnig eraill | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

Tudalen 69

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bydd gan y cynnig hefyd effaith gadarnhaol eang posib ar les emosiynol, gyda phobl yn gallu dychwelyd yn ddiogel i ganol trefi at ddibenion manwerthu a hamdden. | er enghraifft lletygarwch, twristiaeth, iechyd, gofal cymdeithasol a phrosesu cig, (Fforwm Cymru Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig).<br><br>Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau ar ddiogelwch ar y ffyrdd.<br><br>Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar effeithiau emosiynol pandemig y Coronafeirws. | |

| **Crefydd neu ddim cred**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cristnogion | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol pawb drwy gyflwyno mesurau ymbellhau cymdeithasol a mwy o ddiogelwch yn sgil lleihau'r traffig gan gerbydau. Bydd gan y cynnig hefyd effaith gadarnhaol eang posibl ar les emosiynol gyda phobl yn gallu dychwelyd yn ddiogel i addoldai yng nghanol y dref. | Canllawiau a chyngor meddygol gan y Llywodraeth a Sefydliad Iechyd y Byd ar ymbellhau cymdeithasol i atal y Coronafeirws.<br><br>Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau ar ddiogelwch ar y ffyrdd.<br><br>Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar effeithiau emosiynol pandemig y Coronafeirws. | Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno o dan bwerau argyfwng. Bwriedir monitro'r cynnig ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried, ynghyd ag ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2020, ar gyfer unrhyw newidiadau tymor canolig i'r tymor hir y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng. |
| Bwdhyddion | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Hindŵiaid | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Dyneiddwyr | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Iddewon | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Un effaith negyddol bosibl fyddai lle mae angen mynediad ar gyfer y rhai hynny â symudedd cyfyngedig i addoldai yng nghanol trefi. | Rydym wedi bod mewn cysylltiad â rhai o addoldai canol y trefi. Mae cynlluniau'n cael eu paratoi ar hyn o bryd gan addoldai i ailagor mewn ffordd ddiogel. | Parhau i drafod mynediad gyda mannau addoli yng nghanol y trefi. |
| Mwslimiaid | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Sikhiaid | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Pobl heb gred | Cadarnhaol ✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| Eraill | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion a/neu fenywod? (Ticiwch ✓) | | | | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol pobl o bob ryw drwy gyflwyno mesurau ymbellhau cymdeithasol. Mae gan ddynion risg gymharol uwch o’r Coronafeirws a byddant yn cael mwy o fudd o ymbellhau cymdeithasol.<br><br>Bydd y cynnig hefyd yn cael effaith gadarnhaol eang ar gynyddu diogelwch yn sgil lleihau’r traffig gan gerbydau a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar les emosiynol gyda phobl yn gallu dychwelyd yn ddiogel i ganol trefi at ddibenion manwerthu a hamdden. | Canllawiau a chyngor meddygol gan y Llywodraeth a Sefydliad Iechyd y Byd ar ymbellhau cymdeithasol i atal y Coronafeirws.<br><br>Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau ar ddiogelwch ar y ffyrdd.<br><br>Data’r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar effeithiau emosiynol pandemig y Coronafeirws. | Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno o dan bwerau argyfwng. Bwriedir monitro'r cynnig ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried, ynghyd ag ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2020, ar gyfer unrhyw newidiadau tymor canolig i’r tymor hir y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng. |
| Dynion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Menywod | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol**<br>Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓) | | | | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol pobl o bob cyfeiriadedd rhywiol drwy gyflwyno mesurau ymbellhau cymdeithasol ac yn cynyddu diogelwch yn sgil lleihau’r traffig gan gerbydau Bydd y cynnig hefyd yn cael effaith gadarnhaol posib ar les emosiynol gyda phobl yn gallu dychwelyd yn ddiogel i ganol | Canllawiau a chyngor meddygol gan y Llywodraeth a Sefydliad Iechyd y Byd ar ymbellhau cymdeithasol i atal y Coronafeirws.<br><br>Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau ar ddiogelwch ar y ffyrdd. | Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno o dan bwerau argyfwng. Bwriedir monitro'r cynnig ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried, ynghyd ag ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2020, ar gyfer unrhyw newidiadau tymor |
| Pobl ddeurywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Dynion hoyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Menywod hoyw / lesbiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | trefi at ddibenion manwerthu a hamdden. | Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar effeithiau emosiynol pandemig y Coronafeirws. | canolig i'r tymor hir y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng. |
| | ✓ | | | | | |
| Pobl heterorywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

**Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.**

**3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?**

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn:
● dileu neu leihau anfantais ● diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol ● annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran

Mae ail-agor canol trefi yn ymwneud yn gryf â chyfle cyfartal, yn enwedig o ran mynd i'r afael ag effeithiau economaidd-gymdeithasol COVID-19. Mae'r cynnig yn ystyried pawb yng Ngheredigion ac mae hefyd yn ystyried y nodweddion gwarchodedig. Mae'r nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu heffeithio fwyaf yn cynnwys oedran (yn enwedig pobl hŷn ac iau), anabledd a hil.

**3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?**

Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos:
● y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol ● y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol
● bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny

Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol sy'n arwain at wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon ac yn mynd i'r afael ag effeithiau ar draws y nodweddion gwarchodedig. Bydd angen ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer unrhyw newidiadau sy'n ymestyn y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng.

**3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn :
● Mynd i'r afael â rhagfarn ● Hybu dealltwriaeth

Mae cydlyniant cymunedol yn ymwneud â datblygu cyfalaf cymdeithasol drwy hwyluso rhyngweithio a chysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol. Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo cysylltiadau da drwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol mewn amgylchedd diogel.

| |
|---|
| **Rhoi sylw dyledus i ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**<br>**Anfantais economaidd-gymdeithasol yw byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas.**<br>Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae'n ofynnol i Geredigion roi sylw dyledus i ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu cynnal asesiad o'r effaith ar dlodi. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys pawb sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig**.** |
| **3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniadau mewn perthynas â'r cynnig?**<br>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu ddibwys. |
| Bydd y cynnig i ail-agor canol trefi yn cael effaith gadarnhaol ar ffactorau cymdeithasol-economaidd. Bydd ailagor busnesau canol trefi yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi. Ceir effaith gymdeithasol gadarnhaol hefyd o ran lles ac iechyd meddwl pobl. |
| Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon? |
| Gweler Strategaeth Taclo Caledi a Strategaeth Adferiad Economaidd Cyngor Sir Ceredigion i gael tystiolaeth a manylion pellach. |
| Pa gamau(au) y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
| Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno o dan bwerau argyfwng. Bwriedir monitro'r cynnig ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol. Bydd y rhain yn cael eu hystyried, ynghyd ag ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus, ar gyfer unrhyw newidiadau tymor canolig i'r tymor hir y tu hwnt i gyfnod y pwerau argyfwng. |

| **3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod.<br>*Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.* | | | | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Bydd y gwaith o ailagor canol trefi yn cael ei wneud yn ddwyieithog. | Bydd yr holl arwyddion, cynlluniau, dogfennau ategol a chymorth gan swyddogion yn cael eu darparu'n ddwyieithog.<br><br>Mae'r camau gweithredu wedi'u prif ffrydio ar draws Cyngor Sir Ceredigion a byddant yn cael eu darparu'n ddwyieithog. | Bydd cyflawni'r cynnig yn ddwyieithog yn cyfrannu at effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. |
| A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Ni fydd y cynnig i ail-agor canol trefi yn newid natur ieithyddol cymunedau. O ran meithrin cydlyniant cymunedol drwy wella ffactorau economaidd-gymdeithasol, gallai cynnydd mewn cysylltiadau cymdeithasol arwain at fwy o gyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol. Nid yw'r cynnig yn rhoi cyfleoedd yn | Damcaniaeth cydlyniant cymunedol ar gysylltiadau, (er enghraifft cysyniad Cantle o fywydau cyfochrog).<br><br>Yn yr Arolwg o'r Adborth ynghylch Parthau Diogel Canol y Trefi, (Gaeaf 2020), gofynnwyd cwestiwn i bobl am y parthau diogel a'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. | Byddai mwy o gysylltiadau cymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol. |

Tudalen 75

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | uniongyrchol i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gymuned. | Dywedodd pobl wrthym fod yn rhaid i'r holl arwyddion/cyfathrebiadau sy'n ymwneud â'r parthau diogel fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg wedi'i rhestru'n gyntaf.<br><br>Roedd y farn ynghylch a oedd y Parthau Diogel mewn gwirionedd yn hyrwyddo neu'n lleihau'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi'u rhannu – awgrymodd rhai fod palmentydd ehangach a llai o draffig wedi creu mwy o gyfleoedd i bobl stopio a siarad, tra bod eraill yn teimlo eu bod yn lleihau cyfleoedd gan fod llai o bobl leol yn ymweld â'r trefi. Manteisiodd rhai ymatebwyr hefyd ar y cyfle i wneud awgrymiadau i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael, a oedd yn cynnwys parhau â'r ardaloedd mwy o faint i gerddwyr, datblygu'r 'diwylliant caffi' mewn trefi a dodrefn stryd newydd a fyddai'n annog deialog ymysg siaradwyr Cymraeg a dysgwyr fel ei gilydd. | |
| A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg? | ✓ | | | Yn gyffredinol, mae'r cynnig i ail-agor canol y trefi yn hwyluso mynediad at wasanaethau ac mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. | Mae'r cynnig yn hwyluso mynediad i gymorth a gwasanaethau | Bydd darparu gwasanaethau'n ddwyieithog yn cyfrannu at effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. |
| Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Bydd y cynnig i ail-agor canol trefi ar gael ar ein gwefan yn ddwyieithog. Cynhyrchir yr holl arwyddion, deunyddiau a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog. | Bydd yr holl wybodaeth ar gael yn ddwyieithog ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Bydd yr holl arwyddion a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog. | Dim effaith negyddol. |
| A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi diwylliant a threftadaeth lleol? | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Gall meithrin cysylltiadau da gynyddu'r ymdeimlad o berthyn sy'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth. | Dangosyddion Cenedlaethol ar ymdeimlad o berthyn, Arolwg Cenedlaethol Cymru. | Dim effaith negyddol. |



**4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG:** Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

**4.1 Camau**

| Beth fyddwch chi'n ei wneud? | Pryd fyddwch chi'n ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Cafodd ail-agor canol trefi â pharthau diogel ei weithredu'n gyflym drwy bwerau argyfwng. | Ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod cyfnod y pwerau argyfwng. | Yr Economi ac Adfywio | Cynhaliwyd arolwg ymgynghori ynghylch canol y trefi rhwng 31/7/20 a 10/8/20. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cychwynnodd y parthau diogel ar 13 Gorffennaf. Bydd angen ymgynghori â'r cyhoedd ac â rhanddeiliaid ynglŷn ag unrhyw newidiadau y gellid eu parhau ar ôl cyfnod y pwerau argyfwng. | | Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | Bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cael ei gynnal yn ystod yr hydref a dechrau gaeaf 2020, a fydd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer cynlluniau canol trefi a pharthau diogel yn y dyfodol. |
| Bydd angen monitro ail-agor canol trefi am effeithiau cadarnhaol a negyddol a allai oleuo cynlluniau tymor canolig i'r tymor hir ar ôl i gyfnod y pwerau argyfwng ddod i ben. | Monitro effeithiau cadarnhaol a negyddol ail-agor canol trefi yn ystod cyfnod y pwerau argyfwng. | Yr Economi ac Adfywio<br><br>Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | Parhau i fonitro a thrafod yn barhaus â rhanddeiliaid. |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhowch gyfiawnhad.**
*(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)*



**4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu**
*Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?*


Gweler 4.1 uchod.

| **5. RISG:** Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu effaith | 1 – Isel iawn | 2 – Isel | 3 – Canolig | 4 – Uchel | 5 – Uchel iawn |

| Meini prawf asesu tebygolrwydd | 1 – Annhebygol o ddigwydd | 2 – Llai tebygol o ddigwydd | 3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd | 4 – Mwy tebygol o ddigwydd | 5 – Tebygol o ddigwydd |
|---|---|---|---|---|---|

| Disgrifiad o'r risg | Effaith (difrifoldeb) | Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni) | Sgôr risg |
|---|---|---|---|
| Oedi cyn gwneud cynlluniau hirdymor ar gyfer canol trefi a pharthau diogel. | 5 | 3 | 15 |
| | | | |

| Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall? |
|---|
| Bydd y cynnig i ail-agor canol trefi yn drawsbynciol ar draws meysydd gwasanaeth ac yn ymwneud yn agos â'r Economi ac Adfywio a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol. |

| **6. CYMERADWYO** | | | |
|---|---|---|---|
| Swydd | Enw | Llofnod | Dyddiad |
| Rheolwr y Gwasanaeth | Russell Hughes-Pickering |  | 31/3/21 |
| Pennaeth y Gwasanaeth | Russell Hughes-Pickering |  | 31/3/21 |
| Y Cyfarwyddwr Strategol | | | |
| Deiliad y Portffolio | | | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd dros fideo-gynadledda ddydd Iau, 15 Gorffennaf 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Marc Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Ifan Davies, Meirion Davies, Elizabeth Evans, Keith Evans, Dai Mason, Steve Davies, Maldwyn Lewis, Lyndon Lloyd MBE, John Adams-Lewis, Rhodri Davies a John Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Dafydd Edwards a'r Cynghorydd Gareth Lloyd (Aelodau o'r Cabinet)

**Swyddogion yn bresennol:** Phil Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Priffyrdd; Tony Baldwin, Arolygydd Arweiniol Priffyrdd; Caroline Wride, Rheolwr Gwasanaeth; Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chymorth Craffu; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Rhidian Jones a Lliwen Jones (Cyfieithwyr).

(10:00a.m. – 12:12pm.)

**1 Ymddiheuriadau a Materion Personol**

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau.

Dymunai'r Cynghorydd Elizabeth Evans fynegi ei diolchgarwch diffuant i Peter Evans, Harbwrfeistr Aberaeron, a oedd yn ymddeol o'i swydd heddiw. Dymunodd hi'n dda iddo yn ei ymddeoliad.

Estynnodd y Cynghorydd Meirion Davies ei longyfarchiadau i'r Cynghorydd Marc Davies ar gyflawni ugain mlynedd o wasanaeth gyda'r Awdurdod Tân.

**2 Datgelu Buddiannau Personol/ Buddiannau sy'n Rhagfarnu (gan gynnwys datganiadau chwipio)**

Ni ddatgelwyd dim Buddiannau Personol/ Buddiannau sy'n Rhagfarnu (gan gynnwys datganiadau chwipio).

**3 Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gôd Ymarfer Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb ('Cod Ymarfer') sy'n egluro'r polisi a'r safon ar gyfer cynnal archwiliadau ar y rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig.

Unwaith y bydd y côd wedi'i gymeradwyo, eglurodd y Swyddog y byddai angen creu trefniadau arolygu newydd. Bydd angen diweddaru Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Gwasanaeth a'r System Rheoli Asedau, a diwygio adroddiadau'r system, yn ôl yr angen, er mwyn iddynt adlewyrchu gofynion y cod newydd.

Bydd angen hyfforddiant ar Arolygwyr Priffyrdd, Uwch-arolygwyr a Pheirianwyr. Bydd angen rhoi prosesau busnes newydd ar waith i sicrhau bod gwaith trin yn cael ei drefnu'n rhaglenni cynnal a chadw cylchol/ataliol rheolaidd a mwy cost-effeithiol, megis yn achos glanhau cwteri, trin ffosydd, patsho ac ati. Bydd rhaid datblygu cefnogaeth yr Arolygiaeth i weithgarwch gwaith stryd, gwaith gorfodi a swyddogaethau eraill ac mae'r cynigion ailstrwythuro sydd ar waith yn y Gwasanaethau Priffyrdd yn mynd i'r afael â hyn. Mae'n hollbwysig fod y gwaith o gyfrif traffig cerbydau a cherddwyr yn digwydd ar draws y rhwydwaith a bod y rhain yn cael eu hymgorffori wrth adolygu'r Cod Ymarfer yn rheolaidd.

Ar ôl trafodaeth hir, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhelliad canlynol:

- Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021.

Cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021.

**4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2021 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

CYTUNWYD bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2021 yn gywir ar yr amod y mewnosodir y canlynol:
Gweithdrefn, pwynt 1: Cadeiriodd y Cynghorydd Marc Davies y cyfarfod o 10:05am ymlaen.

**5 Blaenraglen Waith 2021/22**

CYTUNWYD i nodi cynnwys Blaenraglen Waith 2021/22 fel y'i cyflwynwyd ar yr amod y mewnosodir yr eitemau agenda canlynol:

- Adroddiad ar ddyfodol y Parthau Diogel – gofynnodd yr Aelodau am i gyfarfod arbennig gael ei alw ynghyd i ystyried yr eitem hon a hynny cyn diwedd mis Medi 2021.
- Adroddiad ar Nitrogen a Ffosffadau – Ionawr 2022;
- Adroddiad ar Gasglu Sbwriel – Ionawr 2022;

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar xxxxx**

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus** |
| **DYDDIAD:** | **1 Hydref 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Cyfarfod rhithiol** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2021/22** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Dynodiad:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 23/9/2021 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2021/22

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Ffyniannus*** | | | |
| 26 Mai | Adroddiad Blynyddol ar Reoli Carbon | Lyndon Griffiths | |
| 15 Gorffennaf | Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Priffyrdd | Rhodri Llwyd | |
| 1 Hydref | Parthau Diogel | Rhodri Llwyd / Russell Hughes Pickering | |
| 4 Tachwedd | Cyflawni Sero-Net erbyn 2030 - bob chwe mis<br><br>Defnyddio Mannau Agored<br><br>Teithio Llesol | Lyndon Griffiths<br><br>Arwyn Davies<br><br>Rhodri Llwyd | |
| **2022**<br>20 Ionawr | Parcio ceir yn y trefi – edrych ar y sefyllfa yn ariannol, yn flynyddol, yn dymhorol, ac yn ôl lleoliad.<br><br>Diweddariad ar Clefyd coed ynn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Casglu sbwriel | | |
| 25 Ionawr<br>Paratoi'r Gyllideb<br>9:30am | Paratoi'r Gyllideb | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Afonydd a llifogydd | | |